CLONC

www.clonc.co.uk

Enillydd Gwobr Menter Cymunedol Gwobrau Busnes Ceredigion 2007

ISSN 1753-1071

Rhifyn 264 - 50c
Mehefin 2008

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Bag siopa newydd am ddim!

Tudalen 5

Cadwyn arall o gyfrinachau

Tudalen 10

Cyfle i ennill llyfrau

2008 Blwyddyn Darllen GENEDLAETHOL

Tudalen 15

Chwaraeon i bawb

Tîm Teifi Girls yn ennill Twrnament Pêl-droed Aberaeron o dan 14 oed: Natalie Harding, Cara Jones, Sioned Douglas (Capten), Caryl Thomas, Lisa Stevens, Sian Elin Williams, Sophie Jones, Lauren James a Mel Morris.

Tîm Pêl-droed Ysgol Ffynnonbedr wedi eu llwyddiant i ennill Tarian yr Urdd, Rhanbarth Ceredigion. Byddant yn mynd ymlaen i gynrychioli Ceredigion yng nghystadlaethau Cymru. Hefyd yn y llun mae eu hathrawes Nia Davies, ond mae un o'r tîm -Haf Burrill - yn absennol.

Tîm Pêl-droed bechgyn Llanbedr Pont Steffan o dan 13 oed yn ennill Cwpan Cynghrair De Ceredigion yn erbyn Aberaeron yn y rownd derfynol gyda'i hyfforddwr Paul Edwards.

Tîm rygbi o dan 10 oed Llambed gyda'r hyfforddwyr Arwyn Jones ac Emyr Jones wedi iddynt gipio medal arian am ddod yn ail mewn cystadleuaeth a drefnwyd yn y clwb rygbi yn ddiweddar.



Tudalen 11

Darllenwch am deithiau tramor

Tudalen 12

O geiniog i geiniog...

Elw gwerthiant llyfr 'Cymeriadau Bro': £250 i Apêl Bro'r Dderi, £250 i Apêl Llanwenog, £500 i Apêl Llambed Urdd 2010 a £500 i Eisteddfod Llambed.

Lynda Jones Banc Barclays yn cyflwyno siec fel rhan o gynllun punt am bunt i ddisgyblion Ysgol Gynradd Cwrtnewydd.

Cyn ddiffoddwyr tân yn cyflwyno siec am £500 sef elw'r nosweithiau bingo i Feddygfa Bryn Meddyg, Llanybydder. Yn y llu mae Phillys Smith; Gerwyn Jones; John Smith; Dr Stephen Rowlands ac Eric Williams.

Denzil Evans yn cyflwyno siec am £437.50 er cof am ei briod Eirian, i Nyrsys Cymunedol Llambed am eu gofal yn ystod gwaeledd Eirian. Dymuna Denzil a Ffion ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau.

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Mehefin	Marian Morgan, Glasfan, Drefach	480490
Gorffennaf	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	golygydd@clonc.co.uk	
Tîm Golygyddol:	Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies, Rhian Jones, Dylan Lewis a Marian Morgan	
Dylunydd:	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
Swyddog Dosbarthu	Eifion Davies, Afallon, Drefach	480590
e-bost:	bedwyr@btopenworld.com	
Teipyddion	Nia Davies, Maesglas	480015
	Joy Lake, Llambed	

Gohebwyr Lleol:

Cellan	Meinir Evans, Rhydfechan	421359
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambed	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon	493325
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Meinir Ebbsworth, Brynamlwg	480453
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Linda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Marian Morgan, Glasfan, Drefach	480490
Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	
Ceidwad y Camera	Janet Evans, Haulfryn, Llambed	422856
Ffotograffydd	Tim Jones, Llainwen	422644
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan newydd Clonc: **www.clonc.co.uk** os am fwy o wybodaeth.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambed.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: golygydd@clonc.co.uk
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun.
- Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost i cadeirydd@clonc.co.uk .
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £12 yn unig y flwyddyn.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Gwastraff. Yn ddiweddar tynnwyd ein sylw at faint y gwastraff bwyd sy'n digwydd. Yn naturiol fe fydd bron i bob un yn taflu rhywbeth neu gilydd. Y duedd yw prynu gormod – pwy sy'n mynd ag un pecyn o orennau pryd y cynnigir un arall am ddim i ni? Pam na fedrwn ni gael un yn rhatach yn lle'r ail am ddim? Faint ohonoch chi sy'n mynd drwy'r oergell ac yn taflu popeth sydd wedi cyrraedd y 'sell by date', - nid yw hyn yn golygu nad yw'n addas i'w fwyta. Beth oedd ein cyndeidiau yn eu wneud cyn oes y stampio ar bopeth? Ychydig flynyddoedd yn ôl daethpwyd o hyd i dun o gig ar ôl taith Scott i'r Antarctic – roedd yn berffaith i'w fwyta. Mae angen defnyddio synnwyr cyffredin serch hynny.

Heddiw yn para 24 awr. Mae'r arfer o wneud 'cwinten' (dyma'r gair ddefnyddiwn i am yr addurniadau ro'ir i ddymuno'n dda i'r pâr yn priodi) i gyfarch pobl ar ben blwydd arbennig yn boblogaidd. Cofiwch fel y cuddiodd rhywun yr arwyddbost i Lanbed yn ddiweddar, a char yn stopio a holi i'r cerddwr am leoliad y dre. Cofiwch hefyd fod 'heddiw' yn golygu 'heddiw' ac nid yfory. Byddwch yn ddigon bonheddig i dynnu'r cyfan i lawr yn syth ar ôl y dathlu.

Brain yn peri problem. Ffermwyr yn achwyn fod defaid ac ŵyn yn cael eu niweidio gan adar yn chwilio am fwyd. Tybed a ydy'r rheolau fod yn rhaid mynd ag anifeiliaid marw yn syth o'r caeau yn amddifadu yr adar o bryd o fwyd? Cwestiwn dyrys arall i fi ydy, sut bod ffermwyr yn cael eu gwahardd rhag claddu anifeiliaid marw ar dir y fferm, ond pe buasai'r ffermwr yn marw fe ellir cael caniatâd i'w gladdu ar dir y fferm! Mae bywyd yn ddyrys onid yw! Claddu yn broblem hefyd!!

Cymorth Cristnogol. Mae'r wythnos wedi mynd heibio eleni eto a gobeithio fod pob un ohonoch wedi cael cyfle i gyfrannu. Bu'r ddwy drychineb yn ddiweddar yn ein hatgoffa am gymaint yw'r angen led led y byd. Gobeithio eich bod wrth roi eich cyfraniad yn yr amlen yn sylwi ar y ffurflen. O lanw hon fe fedrir cael ad daliad o'ch treth incwm. Mae hwn yn medru bod yn gyfraniad arbennig o dda i chwyddo maint y coffrau.

Yr Urdd. Fe welwch fod 'Clonc' wedi gwneud cyfraniad teilwng i Eisteddfod yr Urdd pan y bydd yn ymweld â Cheredigion. Un cwestiwn sy'n poeni pawb yw 'Ble y cynhelir hi?' Deallaf eu bod yn edrych ar bedwar safle yn y sir – Aberystwyth, Aberteifi, Llannerch Aeron a Llanllyr. Diau y cawn wybod cyn bo hir. Pob Hwyl,

Cloncyn.

Diolch

Dymuna teulu y diweddar Vera Watkins, Y Garlyn, Llanybydder, ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn ystod eu profedigaeth o golli Mam, Mamgu a Hen Famgu annwyl iawn yn ddiweddar. Diolch am y cardiau a'r ymweliadau.

Llanybydder

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Dylan Wyn a'r plant sef Rhodri, Rhian a Rhydian, Y Fron, Rhydybont ar farwolaeth gwraig a mam annwyl iawn.

Gwellhad Buan

Gwellhad Buan i Elwyn Davies, Fronlas ar ôl iddo fod yn anhwylus yn ddiweddar.

Merched y Wawr

Ar y nos Lun diwethaf ym mis Ebrill cafodd yr aelodau groeso cynnes pan wnaeth y Llywydd Linda wahodd yr aelodau i swper yn ei chartref a hefyd dangos i ni sut i wneud bwydydd syml a rhoi ambell i rysáit ac yn fwy pwysig ambell i awgrym. Ar ôl y coginio mi gawsom swper blasus, ac mi wnaeth pawb gael llond eu bol. Cofiwyd fod un aelod yn methu â bod yn bresennol yn ein plith oherwydd salwch a phawb yn meddwl amdani.

Trist oedd clywed y diwrnod canlynol am farwolaeth un o aelodau ffyddlon y gangen a oedd hefyd yn ysgrifenyddes eleni sef Wendy Wyn. Roedd Wendy yn aelod ffyddlon ar hyd y blynyddoedd ac nid oedd yn colli cyfarfod yn aml. Mawr bydd ei cholled i gangen Merched y Wawr Llanybydder. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Dylan a'r teulu.

Ar y 19 o Fai mi fuodd y gangen ar Daith Ddirgel. Roedd yn noson braf a bws y gymuned wedi casglu pawb. Cyrhaeddom Rhydgoch, Bwlchygroes, lle bu Toni yn dangos inni sut oedd yn gwneud hufen iâ gyda llaeth o ffarm ei gefnder - sef Hufen Iâ Franco a Toni, ac mi gafodd pawb flasu'r Hufen Iâ a'i glodfori yn fawr iawn. Yna ymlaen i gael swper ym Mhenrhiwllan. Diolchodd Linda i bawb am y gefnogaeth yn ystod y flwyddyn gan ddymuno yn dda i'r swyddogion newydd a hefyd diolch i Nans am ein gyrru'n ddiogel. Enillydd y raffl oedd Mair a gafodd ei roi gan Catrin. Noson i gofio am Wendy oedd hon gan mae hi oedd wedi bod ynghlwm â'r trefniadau.

Mi fyddwn yn dathlu ym mis Medi, 25 o flynyddoedd ers i'r gangen gychwyn. Ymunwch â ni yn y dathliadau.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Daryl Thomas, Cartref Tŷ-Mawr am gael swydd newydd yng Ngholeg Rhydaman; hefyd am basio arholiad 'Chartrered Institute of Building' ac am dderbyn y 'Cap and Gown' yn Ascot. Da iawn ti.

Priodas Dda

Ceinwen unig ferch Tony ac Eirina Sisto, Blaenaugwenog, Gorsgoch a Dorian, mab hynaf Arwyn ac Elma Jones, Tanygaer, Llanybydder wedi eu priodas yn Eglwys St Vitalis, Dihewyd ar Sadwrn Ebrill 26ain.

Drefach a Llanwenog

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Bill Evans, Cledlyn Vale ar farwolaeth ei wraig Jessie, yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn â Jim Evans, Fronwen ar farwolaeth ei frawd yng nghyfraith Ken Lewis yn Llangoedmor yn ystod y mis.

Cyngor Cymuned Llanwenog

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y cyngor ar 13eg o Fai yn Neuadd y Pentref, Drefach. Yn bresennol roedd Cyng. Alun James, Cyng. William Green, Cyng. Daniel Evans, Cyng. Daff Davies, Cyng. Mary Thomas, Cyng. Geraint Davies, Cyng. Huw Davies, Cyng. Lewis Davies, Cyng. Geraint Hatcher, Cyng. Alun Davies a'r Cyng. Gwilym Jenkins. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y cynghorydd sirol sef y Cyng,Haydn Richards.

Etholwyd Cyng. Alun James yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod a'r Cyng. Mary Thomas yn Is-Gadeirydd. Fe wnaeth y Cadeirydd longyfarch pawb ar ganlyniad yr Etholiad a gynhaliwyd ar Fai'r 1af. Croesawodd yn wresog un aelod newydd sef Cyng. Geraint Hatcher. Diolchodd hefyd i Mr Alun Evans, Glennydd, Gorsgoch; a oedd wedi ymddiswyddo cyn yr etholiad, am ei wasanaeth o bron i ddeng mlynedd ar hugain fel Cynghorwr Cymuned.

Nid oedd buddiannau personol i'w ddatgelu. Derbyniwyd y Côd Ymddygiad yn unfrydol gan y cyngor a hefyd llenwyd ffurflenni derbyn swydd fel Cynghorwyr.

Soniodd y clerc ei bod wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â'r arwydd ysgol ym mhentref Cwrtnewydd, hyn ar gais Cyng. Lewis Davies yn ein cyfarfod olaf. Er i'r Cyngor Cymuned anfon llythyr yn y gorffennol, yr un oedd yr ymateb sef nad yw'r cyngor yn fodlon i'r cais. Derbyniwyd hyn gan y cyngor.

Yn dilyn trafodaeth beth amser yn ôl ynglŷn ag arwyddion cŵn yn y plwyf, mae yna 13 arwydd wedi eu harchebu ar gost o £5.00 yr un, a chant eu gosod yn eu priod lefydd yn y dyfodol agos. Derbyniwyd cais oddi wrth bwyllgor Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010 (plwyf Llanwenog a Llanwnnen) yn gofyn am rodd ac fe benderfynwyd ar swm o £100 gan y cyngor.

Nodwyd derbyn nifer o lythyron ynglŷn â chynllunio ac fe soniodd Cyng. Bill Green fod yna holiadur wedi ei ddosbarthu i nifer o gartrefi yn Alltyblaca yn gofyn am farn ynglŷn â'r adeiladu a.y.b.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 24ainMehefin am 8 o'r gloch

Y Gymdeithas Hŷn

Taith i Gaer oedd gan y Gymdeithas ym mis Mai, a chafwyd diwrnod braf ar gyfer y siwrne,- hynny'n gwneud y daith yn fwy pleserus. Treuliodd yr aelodau tua phedair awr yn y ddinas, ar eu liwt eu hunain; rhai yn dewis mynd o gwmpas mewn bws awyr agored a chael llawer o hanes y lle, tra bod eraill yn ymweld â'r Eglwys Gadeiriol neu'n gwario'u harian yn y siopau!

Teithio nôl wedyn i Aberystwyth, a chael pryd o fwyd blasus yn Llety Parc.

Bydd y trip nesaf yn mynd i Ddinbych y Pysgod dydd Mercher Mehefin 11eg, y bws yn cychwyn o Lambed am 8.30.yb. Enwau i Yvonne Davies cyn gynted â phosib.

Sefydliad y Merched

Nickie Evans oedd siaradwraig y cyfarfod ym mis Ebrill, gan roi hanes Llanerchaeron, lle mae wedi bod yn stiward ers pymtheg mlynedd. Trwy gyfrwng sleidiau dangoswyd sut y gwnaed yr holl welliannau gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Noson ddiddorol dros ben, a hyfryd hefyd oedd cael croesawu aelod newydd.

Ym mis Mai, daeth Bethan Williams atom i egluro'r penderfyniadau a ddewiswyd i fynd ymlaen i'r cyfarfod Cenedlaethol yn Lerpwl ddechrau Mehefin; bydd cynrychiolwyr o'r gwahanol ganghennau yn dod at ei gilydd i bleidleisio ar y penderfyniadau yma.

Mwynhaodd nifer o'r aelodau, ynghyd â rhai ffrindiau, noson ar y trên ar nos Sadwrn ddechrau mis Mai. Teithio o stesion Bronwydd i Gynwyl Elfed ac yn ôl, gan fwynhau pryd bwyd tri chwrs blasus, y cyfan wedi ei baratoi ar y trên. Noson bleserus iawn.

Eglwys Santes Gwenog.

Yng nghyfarfod Festri'r Pasg ail etholwyd y swyddogion canlynol, - Warden y Ficer – Mary Thomas; Warden y Bobol – Pauline Roberts-Jones; Ysgrifennydd – Keith Goodall; Trysoryddes – Lyn Goodall. Diolchodd ein ficer y Parch. Bill Fillery i bawb am eu cefnogaeth, ffyddlondeb a'u cydweithrediad i sicrhau blwyddyn lwyddiannus unwaith eto.

Cafwyd mantolen foddhaol gan ein trysoryddes ond pwysleisiodd fod cyfrannu parhaol yn bwysig i gadw'r Eglwys yn agored. Trwy garedigrwydd Wendy ac Alan Mellor derbyniwyd gwahoddiad i ymweld â'u gardd fendigedig yn Rhiwsion Isaf ar Fehefin y 29ain o 2y.p. hyd 6.30. Croeso cynnes i bawb i fwynhau golygfa hyfryd, stondinau amrywiol a barbeciw. Gobeithio bydd y tywydd yn garedig i ni.

Ar yr 20fed o Awst bydd 'Tê Hufenog' yn yr Eglwys. Y thema eleni fydd cystadlaethau arlunio a chrefft i blant ysgolion y plwyf. Mwy o fanylion y mis nesaf.

Llongyfarchiadau i Rhian Wyn Thomas, Llechwedd ar ennill 'Pencampwriaeth Golff Cymru i Fenywod' Rhian oedd y Gymraes gyntaf i ennill y gamp yma ers 1989. Rhagorol Rhian!

Cydymdeimlwn yn fawr â Bill Evans, Vale of Cledlyn' ar farwolaeth Jessie, ei briod ar ôl dioddef cystudd hir. Bu'r angladd yn 'Amlosgfa' Aberystwyth ar yr 16eg o Fai.

Cofiwn yn ein gweddïau am Moira Bone, a phawb o'r plwyf sy'n anhwylus naill ai yn eu cartref neu mewn ysbyty.

Clwb 100 Mis Ebrill: 1.Ken Davies, Rhydyfydrwydd. 2.Charlotte Mellor, Rhiwsion Isaf. 3.David Jones, Tŷ Crian, Cwmsychbant.

Clwb 100 Neuadd y Pentref

Ebrill - Meinir Jones, Cloch yr Ŷd, Mair Williams, Llys Idwal.

Mai - Bet Morgan Glanafon, Gwenan a Siwan Davies. Llysderi

Clwb Ffermwyr Ifanc

Unwaith yn rhagor, mae mis y Clwb Ffermwyr Ifanc wedi bod yn un prysur llawn llwyddiant. Ar y 21ain o Ebrill daeth Meical Morgans atom i gynnal noson cymorth cyntaf. Roedd yn noson ddiddorol a defnyddiol iawn wrth i ni ddysgu sgiliau sylfaenol cymorth cyntaf. Ar Ebrill y 26ain, cynhaliwyd Diwrnod Maes Cymru yn Llanelwedd, a llongyfarchiadau mawr iawn i Elin Jones a gafodd ei henwi'n aelod iau C.Ff.I Cymru!

Cynhaliwyd helfa drysor flynyddol y Clwb ar Fai'r 5ed gyda nifer o geir yn gyrru o amgylch yr ardal yn trïo chwilio cliwiau! Mi fuon ni i gyd yn bwyta llond bola o hufen iâ ar Fai'r 12fed wrth i ni ymweld â bwyty La Calabria ger Ffostrasol. Dangosodd y perchennog i ni sut yr oedd yn gwneud sorbet mango, ac wrth gwrs roedd yn rhaid blasu'r sorbet cyn mynd adre', oedd yn ffein iawn gyda llaw!

Ar y foment, ry'n ni'n fishi iawn yn paratoi ar gyfer rali'r Sir sy'n cael ei gynnal ar fferm Pantydefaid, Prengwyn ar y 7fed o Fehefin. Gobeithio bydd ein llwyddiant yn para yn ystod y Rali hefyd!

Yn ddiweddar, enillodd Cylch Meithrin Drefach marc ansawdd Cylch Rhagorol Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae adroddiad yr arolygydd yn llawn canmoliaeth i'r gofal a'r profiad eang y mae'r plant yn cael yn y cylch. Canmolwyd perthynas wych y staff gyda'r plant a'r hwyl y mae'r staff a'r plant yn ei gael yng nghwmni'i gilydd. Nodwyd bod y cylch yn cynnig awyrgylch gynnes a chartrefol a bod hapusrwydd y plant bach yn amlwg. Bydd ychydig o lefydd gwag yn y cylch o fis Medi ymlaen. Os oes diddordeb gennych, yna cysylltwch â'r arweinydd. Mrs Delyth Jones 07854091043. Hefyd yn y llun gyda'r plant mae'r athrawon Caryl Rosser, Anne Evenden a Delyth Jones.

Dyddiadur

MEHEFIN

5 Sesiwn Ddrymio gyda Bongo Clive yn Neuadd yr Ysgol Llanfihangel ar Arth 5- 5.45 plant 7- 12 oed 5.45 – 6.30 pobl ifanc cost £1.

6 Sesiwn Ymarfer Corff gyda J's Workout yn Neuadd yr Eglwys Cymunedol Llanllwni cost £3.50.

7 Rali C.Ff.I. Ceredigion Pontsian ar fferm Pantydefaid, Prengwyn.

7 Cyngerdd gan Côr Meibion Macclesfield yn perfformio yn Eglwys y Drindod Sanctaidd Aberaeron am 7.30 y.h. gyda Sarah Annakin.

8 Cymanfa Ganu Rali yng Nghapel Pantydefaid, Prengwyn.

10 Cyfarfod Rhwydwaith Cymunedol y Teifi 7yh yn Neuadd yr Eglwys Cymunedol Llanllwni

12 Sesiwn Ddrymio gyda Bongo Clive yn Neuadd Yr Ysgol Llanfihangel ar Arth 5- 5.45 plant 7- 12 oed 5.45 – 6.30 pobl ifanc cost £1.

13 Sesiwn Ymarfer Corff gyda J's Workout yn Neuadd yr Eglwys Cymunedol Llanllwni cost £3.50.

14 Drama 'Trafaelu ar y Trên Glas' – gan Sharon Morgan gyda chwmni Rhosys Cochion yn Neuadd yr Ysgol Llanfihangel cychwyn am 7.30.

14 Y barbeciw blynyddol yn Llanfair Clydogau.

14 Ffair Haf yr Annedd, Llanybydder am 2y.p.

15 Cyngerdd yng Nghapel Maesyffynnon, Llangybi gyda Chôr Ty Tawe, Abertawe. Unawdydd – Teifryn Rees.

18 Trip Pwyllgor Lles Llanwnnen i Fachynlleth, Drenewydd ac Aberystwyth. Enwau i Gomer Lewis, Hafan 480252 cyn gynted a phosib.

18 Cynhadledd Amlgyfrwng i'r Chweched Dosbarth Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan. Cyswllt: linda.jones@lamp.ac.uk

19 Sesiwn Ddrymio gyda Bongo Clive yn Neuadd Yr Ysgol Llanfihangel ar Arth 5- 5.45 plant 7- 12 oed 5.45 – 6.30 pobl ifanc cost £1.

20 Trip Llanfair Clydogau i Aberglasni a Chastell Dinefwr.

22 Cyngerdd ym Mhafilwn Pontrhydfendigaid gyda buddugwyr Eisteddfod 2008 ynghyd â Catrin Finch.

23 Pwyllgor Canmlwyddiant Ysgol Llanwnnen yn yr ysgol am 7y.h.

24 Pwyllgor Apêl Eisteddfod 2010 yn Ysgol Ffynnonbedr am 7:30y.h.

27 Cyngerdd yng Nghapel y Groes, Llanwnnen am 7:30y.h. gyda Chôr Lleisiau'r Werin, Parti'r Gannwyll, Plant yr Ysgol Sul, Plant Ysgol Llanwnnen a Heledd a Gwenllian Llwyd.

28 Diwrnod hwyl yn Llanllwni i ddechrau am 1y.p.

GORFFENNAF

5 Cyngerdd Canmlwyddiant Ysgol Llanwnnen yn Theatr Felinfach am 7y.h. Tocynnau ar werth o'r Theatr 01570 470697.

6 Oedfa o Fawl yng Nghapel Shiloh Llambed am 7y.h. Elw tuag at Apêl Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010.

11 6yh Noson Goffi – Frondolau, Pentrebach, elw at Ymchwil y Cancr.

12 Sel Cist Car 8 yb – 1yp Clwb Rygbi, Heol y Gogledd – elw at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010.

12 Mabolgampau Cwrtnewydd.

14 Cyfarfod o Bwyllgor Apêl Llanwenog a Llanwnnen Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010 yn Ysgol Gynradd Cwrtnewydd am 7:30y.h.

14 Ffair Haf Ysgol Llanwnnen yn yr ysgol am 4y.p. a thwrnament Pêl-droed i blant.

17 Ffair Haf Ysgol Carreg Hirfaen yn Uned Coedmor am 6 o'r gloch.

19 Cneifio Llambed ar fferm Capeli. Elw'r diwrnod yn mynd i Uned Losgiadau Ysbyty Treforys, Abertawe.

26 Ffêt pentref Llanfair Clydogau.

AWST

10 Pwyllgor y Pentref yn trefnu Diwrnod Hwyl ar gae Cwmann.

22–25 Penwythnos Eisteddfod Rhys Thomas James, Llambed.

MEDI

13 Ffair Ram ar gae pentref Cwmann.

18 Noson Caws a Gwin – Festri Brondeifi Elw at Ymchwil y Cancr.

20 Lansio Llyfr, Dadorchuddio plac ac arddangosfa luniau Canmlwyddiant yn Ysgol Llanwnnen 2 - 5y.p. a'r Cinio Dathlu yn yr hwyr.

21 Cymanfa Ganu Canmlwyddiant Ysgol Llanwnnen yng Nghapel y Groes, Llanwnnen am 7y.h. Llywydd – Dr Dai Lloyd AC.

HYDREF

10 Ocsiwn Addewidion yn Nhafarn Cefnhafod, Gorsgoch. Elw tuag at Apêl Plwyfi Llanwenog a Llanwnnen.

18 Cyngerdd Corau Meibion Unedig Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid. Elw tuag at Bwyllgor Cerdd Eisteddfod 2010.

TACHWEDD

2 Cymanfa Ganu Bedyddwyr Glannau Teifi yng Nghapel Penybont Llandysul am 6y.h. Arweinydd: Sioned James, Caerdydd.

Bag Papurau Bro

am ddim i'r 200 aelod newydd cyntaf sy'n ymuno â Chlwb Clonc a thalu drwy archeb banc.

CEFNOGI CLONC 2008

Y ffordd orau a'r mwyaf ymarferol o gefnogi eich papur bro yw trwy ymuno â Chlwb CLONC. Rydym yn ddibynnol iawn ar yr incwm. Diolch am gefnogi.

CLWB CLONC

Byddem yn gwerthfawrogi petaech yn talu drwy archeb banc. Mae'n hawdd. Llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr Ysgrifenyddes.

Archeb Banc yn unig

At Rheolwr Banc y / Manager of . . . . . .

Cangen / Branch . . . .

Wedi derbyn yr archeb hon, telwch i FANC NATWEST Llambed 53 61 42 CLWB CLONC 03451526 y swm o £5, £10, £15, £20* NAWR ac yna ar y dydd cyntaf o Orffennaf bob blwyddyn nes y rhybuddiaf chi ymhellach, telwch y swm o

£5, £10, £15, £20

Enw llawn / Name . . . . . .

Cyfeiriad Llawn / Address . . . . . .

. . . . . .

Rhif y cyfrif / Account no . . . . . .

Dyddiad / Date . . . ./. . ./08

Arwyddwyd / Signed . . . . . .

** Rhowch gylch o amgylch y swm y dymunwch roi**

neu...

os am dalu ag arian parod neu siec, llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr ysgrifenyddes cyn diwedd mis Gorffennaf os gwelwch yn dda.

Amgaeaf tâl o £5, £10, £15 neu fwy.

**** Arian / Siec yn daliadwy i 'Glwb Clonc' ****

Enw: . . . . . .

Cyfeiriad: . . . . . .

. . . . . .

. . . . . .

CLWB CLONC Mehefin 2008

£25 rhif 30 : Dilwyn Davies, Alwyn, Llanwnnen
£20 rhif 434 : Teulu Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd
£15 rhif 294 : Miss Hannah Jones, Cartref Henllan, Henllan
£10 rhif 223 : Mrs Mair Jenkins, Glynmeherin, Gorsgoch
£10 rhif 98 : Sioned Davies, Y Cartws, Rhydowen
£10 rhif 288: D.J. Jones, Gorlandeg, Llanfihangel-ar-Arth

Llanbedr Pont Steffan

Gwersi Cymraeg i oedolion yn Ysgol Ffynnonbedr

Ysgol Ffynnonbedr

Yn yr Arolwg Estyn derbyniodd yr ysgol y sylwadau agoriadol canlynol - "Mae Ysgol Ffynnonbedr yn ysgol hapus iawn. Mae ganddi rai nodweddion rhagorol a nifer sylweddol o nodweddion da. Mae'r pennaeth, gyda chymorth medrus y dirprwy, staff hynod ymroddgar a chorff llywodraethol cefnogol, wedi cynnal safonau da dros y blynyddoedd diwethaf."

Canmolwyd safon cyflawniad y disgyblion gan nodi fod 84% naill ai yn dda gyda nodweddion rhagorol neu'n dda. O safbwynt gwaith yr athrawon roedd 87% naill ai yn dda gyda nodweddion rhagorol neu'n dda. Nodwyd yr ymdeimlad o dîm effeithiol yn gweithredu yn yr ysgol.

Clodforwyd ymddygiad y plant gan ddweud iddo fod yn rhagorol a bod y disgyblion yn awyddus i ddysgu ac yn parchu ei gilydd.

Nodwyd hefyd bod y cyswllt rhwng yr ysgol â'r gymuned yn un o gryfderau'r ysgol.

Derbyniodd rhai adrannau/pynciau y radd uchaf o ragoriaeth, roedd eraill yn dda neu â nodweddion da. Mae'r ysgol yn ymhyfrydu yn hyn ac yn amlwg fe fydd yn sail gadarn i adeiladu arno a'i ddatblygu i'r dyfodol.

O safbwynt y llecyn a'r adnoddau nodwyd bod yr "adeilad newydd sbon a'r ddarpariaeth yn rhagorol."

Mae'r plant, staff, llywodraethwyr a rhieni yn edrych ymlaen i ddatblygiad pellach i'r dyfodol.

Cafwyd nifer o lwyddiannau gan blant yr ysgol yn ddiweddar.

Enillodd tîm pêl-droed y merched wobr gyntaf yn sirol a gwnaeth Caitlin Page yr un peth.

Daeth Caitlin yn ogystal yn drydydd yn ei ras o ran y merched ar lefel genedlaethol - gwych iawn a'r tîm merched yn bumed.

I ychwanegu at hyn enillodd Caitlin ras Sarn Helen yn ddiweddar.

Bu Gareth John yn chwarae criced ar ran Sir Gaerfyrddin a chynrychioli De Cymru. Mae'n dda gweld y traddodiad teuluol yn parhau.

Mewn maes hollol wahanol daeth Carie Collom yn ail yn yr Adran Dechnoleg yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghonwy. Llongyfarchiadau iddi hi a dymunwn yn dda i Klean Dalton fydd yn cynrychioli'r ysgol yn y ddawns disgo ac i'r unawdwyr a'r partïon fydd yn cynrychioli'r Adran yn yr Eisteddfod.

Llongyfarchwn hefyd y tîmau iaith gyntaf ac ail iaith a fu'n cystadlu yn y cwis llyfrau Cymraeg. Mae'n glod iddyn nhw a'u hathrawon eu bod yn medru cyrraedd safon mor uchel.

Hyfryd oedd cael cwmni dwy athrawes o Batagonia oedd yn aros gyda Mrs Morfudd Slaymaker. Buont gyda ni am ddiwrnod a mwynhau'r profiad yn fawr.

Braf yw croesawu nifer o'n rhieni sy'n dod atom ar fore Gwener i ddysgu'r iaith. Mawr hyderwn y byddant yn meistroli'r Gymraeg fel eu bônt yn medru bod yn aelodau llawnach o'n cymdeithas.

Aelwyd Yr Urdd

Ar noson hyfryd o Fai cynhaliwyd Helfa Drysor Aelwyd yr Urdd i gloi gweithgareddau'r flwyddyn. Daeth criw niferus ynghyd a chafwyd llawer o hwyl yn ceisio dod o hyd i'r atebion cywir. Paratowyd yr Helfa Drysor gan Janet. Dyma'r canlyniadau : - 1. Rhian, Nicola a Kiri (29½), 2. Daniel Edwardes (28), Cydradd 3. Gwawr, Sian Elin a Lauren/Beca, Sioned a Lizzie (27½). Cynorthwywyd ar y noson gan Joy, Mareth a Janet.

Bu'r flwyddyn yn un llwyddiannus iawn unwaith eto yn hanes yr Aelwyd. Cymerwyd rhan mewn nifer o weithgareddau yn cynnwys dawnsio gwerin, gweithdy drama, eisteddfod ddwl, oedfa Sul yr Urdd a chystadlu yn yr eisteddfod. Dymuna Janet ddiolch o waelod calon i'r aelodau am eu ffyddlondeb – bu rhwng 35 a 45 yn mynychu'n rheolaidd. Diolch yn fawr hefyd i Geinor Medi, Helen, Rhian, Mareth a Joy am eu cymorth mawr ac i'r rhieni am eu cydweithrediad. Bydd yr Aelwyd yn ail ddechru ym mis Medi. Mwynhewch y gwyliau.

Mae dyled yr Aelwyd yn fawr i Huw Jenkins, Prifathro Ysgol Ffynnonbedr am ddefnydd o'r neuadd i gynnal ein cyfarfodydd a hefyd i Barrie Hughes y gofalwr am bob cydweithrediad.

Pigion yr Eisteddfod

Roedd neuadd Ysgol Ffynnonbedr yn llawn yn ddiweddar ar gyfer Pigion yr Eisteddfod yng nghwmni aelodau Adran ac Aelwyd yr Urdd. Mwynhawyd noson wych yn gwrando ar y plant a'r bobl ifanc oedd wedi cyflawni camp arbennig, drwy gipio 8 cyntaf, 3 ail a 6 trydydd yng nghystadlaethau Eisteddfodau Rhanbarth Ceredigion. Cafwyd amrywiaeth eang o eitemau o safon uchel iawn yn cynnwys unawdau lleisiol ac offerynnol, adroddiadau, cyflwyniadau gwerin, unawd allan o sioe gerdd ynghyd â grwpiau canu a llefaru. Arweiniwyd y noson yn hwylus ac yn fedrus gan is-arweinyddion yr Aelwyd sef Rhian Jones, Geinor Medi a Helen Roberts. Ar ddiwedd y noson talwyd diolch haeddiannol gan Rhian i'r artistiaid ifanc i gyd, i Rhiannon ac Elin am hyfforddi'r partrion, i Janet am drefnu'r noson ac i bawb oedd wedi cynorthwyo mewn unrhyw ffordd ac yn olaf ond nid y lleiaf talodd deyrnged i Mr Huw Jenkins, Prifathro Ysgol Ffynnonbedr am ddefnydd o'r neuadd hardd a hefyd am bob cydweithrediad wrth gynnal cyfarofodyd yr Adran a'r Aelwyd yno yn ystod y flwyddyn. Datganodd Janet ei gwerthfawrogiad i Rhian, Geinor Medi a Helen am eu cyfraniad gwerthfawr hwythau. "Talent eithriadol", dyna'r geiriau ar wefusau pawb wrth droi tuag adref yn dilyn noson lwyddiannus a phleserus iawn. O ganlyniad, codwyd swm sylweddol i helpu tuag at gostau cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Gyrfa Chwist – Cartref Hafan Deg

Ar nos Fercher y 30ain o Ebrill, cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain.

Dynion 1af – Maggie Vaughan, Bro Henllys, Felinfach, 2ail – Edward Lockier, Llambed, 3ydd Jack Jenkins, Llanybydder. Merched 1af – Nancy Davies, Heol y Goedwig, Llambed, 2ail – Beryl Roach, Bro Henllys, Felinfach, 3ydd Cathrina Davies, Aberaeron.

Sgor Isaf – Dynion – Gwendoline Jones, Llanybydder, Merched – Margaret Roberts, Llambed. Bwrw Allan – Enillwyr – Jack Jenkins a Evan Jones, Aberarth, 2ail Nancy Davies a Edward Lockier.

Ar nos Fercher y 14eg o Fai, cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain.

Dynion 1af – Ray Jenkins, Llanybydder, 2ail Dan Davies, Aberaeron, 3ydd Harry William, Ystrad Aeron. Merched 1af Miriam Davies, Aberaeron, 2ail Gwen Davies, Llanwnnen, 3ydd Ray Thomas, Stryd Newydd, Llambed. Sgor Isaf Dynion Ifan John Jones, Felinfach, Merched Mari Evans, Llanwnnen. Bwrw Allan – Enillwyr Ray Thomas a Harry Williams, 2ail Gwenda Davies, Felinfach a Ray Jenkins. Bydd y Gyrfaoedd Chwist nesaf ar Nos Fercher 11eg a 25ain o Fehefin. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddwys â'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

Merched y Wawr

Yn wahanol i'r arfer fe aeth Cangen Merched y Wawr Llanbed ar daith ddirgel nos Lun 12fed o Fai wedi ei threfnu yn arbennig gan Ray a Glenys a phawb yn ceisio dyfalu lle yr oeddem yn mynd. O dipyn i beth ar ôl ychydig drafferth gyda'r bws fe gyrhaeddom ganolfan Gwasg Gomer ger Llandysul a chael ein tywys o gwmpas i gael gweld sut oedd y gwahanol broblemau yn cael eu cyflawni yn ogystal â sut oedd yr holl ddeunydd yn cael ei baratoi ar gyfer argraffu. Tipyn o agoriad llygaid ac yn ddiddorol dros ben. O'r fan hynny, rhagor o ddyfalu lle'r oeddem am fynd i gael bwyd ac ymlaen drwy Sgwâr Horeb a phawb yn synhwyro mai i Tafarn Ffostrasol yr oeddem am orffen y dirgelwch. Cafwyd pryd blasus iawn ac orig o gymdeithasu gyda'n gilydd. Cafwyd pwyllgor byr dan lywyddiaeth Eryl pan ddiolchodd i Glenys a Ray am baratoi a threfnu noson hyfryd iawn ar ein cyfer. Fe wnaeth gydymdeimlo â sawl aelod a oedd wedi colli annwyliaid yn ddiweddar. Llongyfarchodd Dorothy ac Elfan a'r teulu ar enedigaeth wŷr bach, Mrs Nansi Jones ar enedigaeth ei gor wŷr bach ac hefyd Gwyneth ac Endaf sydd newydd ddathlu eu priodas Ruddem gan ddymuno'n dda iddynt. Braf oedd dweud hefyd fod Jan adref o'r Ysbyty erbyn hyn.

Diolchodd Eryl I'r aelodau a oedd wedi cyfrannu bwyd a gwobrau raffl a helpu i baratoi Te i'r ifanc o galon yn Neuadd Victoria yn ddiweddar a diolchodd i Llinos ac Olwen am ymweld ag unigolion Hafan Deg.

Fe fu Gŵyl Fai y Rhanbarth yn Aberaeron yn ddiweddar a diolchodd Eryl i aelodau a oedd wedi cystadlu ond yn arbennig iawn i Dilys Godfrey a wnaeth gipio 3 trydydd gwobr ac un wobr gyntaf. Mae wyth o aelodau'r gangen yn bwriadu cymryd rhan yn y Ras am Fywyd yn Aberystwyth ar y 11eg o Fehefin i godi arian at Ymchwil y Cancr ac

Llanbedr Pont Steffan

y maent ar hyn o bryd yn ymarfer tipyn a cheisio casglu noddwyr gan obeithio llwyddo gwneud cyfraniad at y salwch difrifol hyn. Cynhelir ein Cyfarfod Blynyddol y Mis nesaf gydag ychydig o adloniant ysgafn gan Verina.

Llwyddiant Lowri Elen



Cyflawnodd Lowri Elen, Glennydd, Stryd Newydd gamp eithriadol yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid eleni wrth iddi ennill yr unawd 10 -12 oed. Dyma'r 5ed flwyddyn yn olynol iddi ddod i'r brig yng nghystadleaueth yr unawd yn yr Eisteddfod hon. Hefyd cipiodd y drydedd wobr yn y llefaru. Yn ystod y misoedd diwethaf mae Lowri Elen wedi ennill llu o gwpanau am ganu a llefaru ar hyd a lled y wlad. Ac wrth i Clonc fynd i'r wasg clywyd am ei llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd gan ddod yn ail am lefaru a thrydydd am ganu. Llongyfarchiadau mawr i ti a phob lwc i'r dyfodol.

Cymanfa Ganu

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu flynyddol Annibynwyr cylch Llanbed yng Nghapel Soar, Dydd Sul, yr 11eg o fis Mai; fel mae'n arferol ers llawer blwyddyn bellach, un oedfa am 5 o'r gloch i'r plant a'r oedolion.

Llywydd y Gymanfa eleni oedd y Parch. Ddr. Rheinallt Davies, ar ran Capel Bethel Drefach, ac aelodau'r Capel oedd yn cymeryd at y rhannau arweiniol. Darllenwyd gan Jane Jones, Pwllybilwg, ac offrymwyd gweddi gan Gillian Jones, Meysydd.

Croesawyd a chyflwynwyd yr Arweinyddes gan y Llywydd; Mrs Carys Lewis, Cwmann, - athrawes, cantores, ac yn awr arweinydd Côr Corisma; yn enedigol o Felinfach. Creodd naws hyfryd gyda'i ffordd hamddenol ddi-ffws, a thynnodd y gorau allan o'r cantorion. Braf oedd gweld llond y sêt fawr o blant ysgolion Sul Bethel Parcyrhos a Thynygwndwn, yn mwynhau eu hunain wrth ganu.

Cafwyd gair gan y Llywydd er mwyn rhoi hoe i'r arweinydd a'r cantorion, a rhoddodd ychydig o hanes y cymanfoedd cynnar yn hanes yr enwad. Diddorol oedd clywed fod yna drenau'n cludo pobol i'r gymanfa am ddim yn nechrau'r 20fed ganrif.

Talwyd y diolchiadau ganddo hefyd, ac offrymwyd y Fendith gan y Parch. Huw Roberts.

Cymdeithas Hanes Llambed

Noson yng ngofal rhai o'r aelodau oedd cyfarfod mis Mai, a hynny er mwyn diweddaru rhai o'u prosiectau, gan ddal i gasglu gwybodaeth. Yn absenoldeb y Cadeirydd a oedd yn derbyn llawdriniaeth, cymerwyd y Gadair gan yr Athro David Austin. Dymunodd yn dda i Selwyn Walters ar ran y Gymdeithas, ac arwyddwyd cerdyn iddo gan bawb oedd yn bresennol.

Cyflwynodd Penny David ei gwaith ar fap y degwm dros ardal Llambed, gan roi enwau nifer o'r caeau, gan annog yr aelodau i gofnodi yr enwau a gofient am gaeau eraill. Mae nifer o'r caeau yma wedi diflannu o dan adeiladau, neu nifer o gaeau bach wedi mynd yn un cae mawr, ond byddai'n drueni colli'r enwau hanesyddol arnynt.

Aeth ymlaen wedyn i ddangos hen lun yn ymwneud â theulu a gweision/morynion Falcondale tua ddiwedd y rhyfel byd cyntaf. Braf oedd cael ymateb o'r llawr, ac un aelod yn medru dweud bod ewythr iddo yn y llun.

Yvonne Davies bu'n cymeryd y rhan nesaf o'r noson, gan roi rhagor o hanes y Stryd Fawr. Mae'n syndod fel mae'r jig-so yn dal i dyfu! I ddiweddu, roedd Cecilia Barton wedi derbyn ymateb oddiwrth un o gyn-drigolion Llambed wedi iddi dderbyn Calendr Hanes Llambed 2008, ac roedd wedi ysgrifennu ei hatgofion hi am fwyafrif o'r lluniau,- hynny eto yn arwain at fwy o drafodaeth ymysg yr aelodau.

Diolchwyd i bawb gan David Austin, a chyhoeddodd y bydd y cyfarfod nesaf , Nos Fawrth, Mehefin 17eg, 'Helfa Drysor' neu Cwis Hanes -(yn ddibynnol ar y tywydd)- yn ngofal Jen Cairns. Pawb i gwrdd yn yr Ystafell Adnoddau am 7.30.yh.

Ym mis Gorffennaf, trefnir ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol, dydd Mercher yr 16eg o'r mis, ond bydd angen rhoi eich henwau yn y cyfarfod nesaf.

Cynhadledd Chweched Dosbarth

Cynhelir cynhadledd amlgyfrwng (ar gampws a thrwy gyswllt fideo) ddydd Mercher, 18 Mehefin 2008 (rhwng 9.30yb a 3.00yp) yn Adeilad y Celfyddydau, Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan.

Ymhlith y cyfranwyr bydd Ceri Wyn Jones, Caryl Lewis, Rhiannon Ifans, Elisa Moras ac Owen Thomas yn trafod gwahanol agweddau ar faes llafur Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol Cymraeg.

Mynediad rhad ac am ddim i athrawon a disgyblion Cymraeg ysgolion

uwchradd lleol. Am ragor o fanylion cysylltwch â Linda Jones (01570 424754 neu linda.jones@lamp.ac.uk).

Clwb Bowlio

Cynhaliwyd noson wobrwyo lwyddiannus iawn yn ddiweddar. Cyflwynwyd tarianau a chwpanau i enillwyr cystadlaethau a gymerodd le yn ystod y gaeaf gan Mr Edwin Harries, y llywydd. Diolch i Mark Lane am baratoi bwyd blasus. Daeth y noson i ben gyda Rasys Parlwr a gododd arian sylweddol i'r clwb. Diolch i'r bobl a fu ynghlwm â'r rasys yma.

Ar brynhawn heulog agorwyd y tymor newydd gan y Maer Chris Thomas. Cafwyd gêm hwylus dros ben yn ystod y prynhawn. Diolch i'r gwragedd am baratoi lluniaeth i'r chwaraewyr a ffrindiau'r clwb.

Llongyfarchiadau i Anwen Butten a Morfudd Rees am gael eu dewis i chwarae i garfan Cymru 2008. Pob lwc.

Diolch

Hoffai'r Cynghorydd Dorothy Williams, Blodfryn, Heol y Bryn ddiolch yn gynnes i'r rhai a bleidleisiodd drosti yn yr etholiad ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion a gynhaliwyd ar ddechrau mis Mai.

Ymchwil y Cancr

Cyfarfu aelodau pwyllgor Ymchwil y Cancr yn ddiweddar yn festri Brondeifi o dan gadeiryddiaeth y Parch Goronwy Evans. Gan mai aelodau Llanybydder oedd yn gyfrifiol am godi arian y llynedd tro Llambed yw hi eleni. Trafodwyd nifer o syniadau a phendefynwyd trefnu raffl fawr i'w thynnu mewn noson Caws a Gwin yn festri Brondeifi ar 18 Medi. Cynhelir Noson Goffi yng nghartref Hazel a Twynog Davies, Frondolau nos Wener 11 Gorffennaf rhwng 6 a 9 o'r gloch – diolch iddynt am eu caredigrwydd. Hefyd mae aelodau'r pwyllgor o ardal Cellan wedi cytuno i drefnu gweithgaredd ym mis Hydref. Estynnir croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â'r pwyllgor – bydd y Parch Goronowy Evans a Joan James yr ysgrifennydd yn falch i glywed oddi wrthych. Mae'r pwyllgor yn un hwyliog a chartrefol iawn.

Diolch

Dymuna'r Cynghorydd Ivor Williams ddatgan ei werthfawrogiad i etholwyr Llanbedr Pont Steffan am ei ail ethol fel Cynghorydd Sir Ceredigion. Diolchir yn gynnes iawn i bawb am eu cefnogaeth ardderchog.

Diolch

Dymuna'r Cynghorydd Hag Harris ddiolch yn fawr iawn i drigolion Llanbedr Pont Steffan am ei ail ethol ar Gyngor Sir Ceredigion. Diolch o waelod calon i bawb am eu cefnogaeth rhagorol.

Bedyddwyr

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambed ym Methel Cwm Pedol ar Sul 18 Mai. Cymerwyd at y rhannau arweiniol yn oedfa'r prynhawn gan Dafydd Morgan a Deian Thomas, Bethel Cwm Pedol. Yr arweinydd gwadd oedd Carys Lewis o Gwmann, arweinydd Côr Merched Corisma. Mwynhawyd gwledd arbennig yn oedfa'r plant gyda phob un ohonynt yn rhoi o'u gorau glas ac yn ymateb yn rhagorol i gyfarwyddiadau'r arweinydd ac wrth eu bodd yn ei chwmni. Yn ôl yr arfer bu'r plant a'r bobl ifanc yn darllen yr emynau gan wneud hynny yn hynod o raenus. Llywydd oedfa'r prynhawn oedd Llinos Jones o Noddfa a chyflwynodd neges bwysig i'r plant mewn ffordd syml ond effeithiol iawn gan ddal eu sylw o'r dechrau i'r diwedd a chafwyd ymateb brwd a hwyliog iawn i'w chwestiynau. Pleser oedd gwrando ar eitem o safon uchel ar lafar ac ar gân yng ngofal Ysgol Sul Noddfa yn seiliedig ar Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd. Er nad oedd rhifau'r cantorion yn uchel yn oedfa'r hwyr cafwyd canu gorfoleddus gyda'r arweinydd a'r câr ar eu gorau. Llywyddwyd gan Eirian Morgan, Bethel Cwm Pedol a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Rhys Davies hefyd o Fethel. Talodd y llywydd ddiolch haeddiannol i'r arweinydd am ei gwasanaeth clodwiw yn ystod y dydd, i bawb oedd wedi cymryd rhan, i'r organyddion Elfyn Davies ac Avril Evans am eu cyfraniad gwerthfawr, i'r cantorion o'r eglwysi lleol am eu cymorth ac i swyddogion ac aelodau Bethel am eu croeso ac am drefnu lluniaeth ardderchog rhwng yr oedfaon. Talodd deyrnged hefyd i Emlyn Davies am ei waith diflino yn arwain rihyrsals yr oedolion, i Janet Evans am baratoi'r plant a'r bobl ifanc ac i sywddogion y pwyllgor am eu paratoadau trylwyr. Talodd Carys ei diolch hithau am y fraint o gael arwain y Gymanfa ac i'r plant a'r oedolion am eu canu bendigedig. Tystaiu pawb yn bresennol ein bod wedi cael Gymanfa lwyddiannus iawn.

Gorsgoch

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Elinor Jones, Penlon ar basio arholiad cerdd ysgrifennedig Gradd 4 gyda anrhydedd.

Colofn yr Urdd

Gwerthu nwyddau ffasiynol at Eisteddfod yr Urdd yn 2010

"Hei Mr Urdd yn dy goch gwyn a ... leim" yw'r gân wrth i bobl Ceredigion baratoi i groesawu Eisteddfod genedlaethol y mudiad yn 2010.

Mae'r arbenigwyr ffasiwn yn darogan mai leim fydd Y lliw yn y flwyddyn honno, a dyna yw un o ddau liw nwyddau'r ŵyl. Mae rhai o'r rheiny newydd ddod ar werth i godi arian at yr Eisteddfod a thynnu sylw ati.

Fe fydd gwyrdd yn bwysig hefyd, gan fod llawer o'r nwyddau wedi eu creu o ddefnydd wedi ei ailgylchu - gan gynnwys pensil, pren mesur a llyfr nodiadau.

Mae'r Pwyllgor Gwaith yng Ngheredigion yn dilyn ffasiwn arall hefyd trwy greu peli rygbi arbennig a chrysau rygbi i ferched a dynion – y cyfan i ddathlu llwyddiant y tîm cenedlaethol yn cipio'r Goron Driphlyg a'r Gamp Lawn.

Ymhlith nwyddau eraill sydd ar fin ymddangos, crysau polo a chrysau-T a'r rheiny, fel yr holl nwyddau eraill, mewn leim a du.

Mae'r nwyddau eisoes yn gwerthu'n gyflym yng Ngheredigion ac fe fydd cyfle i bawb trwy Gymru eu prynu pan fydd gan Eisteddfod 2010 stondin ar faes Eisteddfod 2008 yng Nghonwy adeg hanner tymor.

Bydd cyfle arall yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Awst pan fydd y gwaith o beintio'r byd yn leim yn parhau.

Elfen arall bwysig yw fod y rhan fwya' o'r nwyddau'n cael eu cynhyrchu'n lleol, gyda Hefin Jones o Argraff Delyn Print ger Llandysul yn helpu'r Pwyllgor Gwaith i ddewis a ffeindio nwyddau.

"Rydyn ni wrth ein bodd fod ein nwyddau mor ffasiynol," meddai Rhian Dafydd, Cadeirydd y Pwyllgor Cyhoeddusrwydd. A hithau'n berchen ar gadwyn siopau Ji-binc a Jac-do, mae'n deall y maes yn berffaith.

"Mae'r nwyddau'n gosod cywair ar gyfer yr Eisteddfod ac mae ein dewis ni o liwiau yn dangos y bydd yr Eisteddfod yn fodern, yn fywiog ac yn llwyddiant llachar!"

Rhagor o wybodaeth: Rhian Dafydd – 07815 324857.

Digwyddiadau i godi arian i 2010

Gorffennaf 6 - Oedfa o Fawl yng Nghapel Shiloh Llambed am 7y.h. Elw tuag at Apêl Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010.

Hydref 1 - Sioe Ffasiynau gan Cameo yn Theatr Felinfach. Elw tuag at Apêl Plwyf Troedyraur.

Hydref 10fed - Ocsiwn Addewidon i'w chynnal yng Nghefnhafod, Gorsgoch ar y 10fed o Hydref 2008 os ydych yn dymuno cyfranu tuag at y noson mewn unrhyw ffordd, cysylltwch â Caryl 01570 481036 neu Wendy ar 01570 481153. Gwerthfawrogwn unrhyw gyfraniad. Er budd Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd 2010 Plwyf Llanwenog a Llanwnnen

Hydref 18 - Cyngerdd Corau Meibion Unedig Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid. Elw tuag at Bwyllgor Cerdd Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010.

Sarn Helen

Aeth blwyddyn arall heibio, a daeth yr amser i Redeg Marathon Llundain. Carwyn Thomas yn cael ras arbennig o dda ac yn gorffen yn safle 420 ac yn 11feg yn yr oedran i Ddynion o dan 24. Amser Carwyn oedd 2 awr 38 munud a 40 eiliad, ac yn rhedeg yn ei amser gorau. Mark Dunscombe 3 awr 5 munud a 43 eiliad, Murray Kisbee 3 awr 25 munud a 59 eiliad, Caroline John 3 awr 33 munud a 39 eiliad, a Jamie Thomas 3 awr 43 munud a 36 eiliad.

Ar ŵyl y banc ddechrau Mai ysgol Cwrtnewydd oedd lleoliad ras hwyl Sarn Helen. Cafodd dri o'r aelodau ras arbennig gan dorri record y cwrs, Ian Williams, Adam Bitchell a Jack Davey .

1af Dynion Ian Williams Trots 20 munud a 25eiliad , 2ail Adam Bitchell Carmarthen Harriers 21 munud 9 eiliad, 3ydd Jack Davey Carmarthen Harriers 22munud 5eiliad. Dynion 40 1af Glyn Price Sarn Helen 23 munud 17eiliadau, 2ail Tom Garrod Abingdon Amblers AC 25 munud 52 eiliadau, 3ydd Mark Dunsocombe Sarn Helen 26 munud 20 eiliadau. Dynion 50 1af Richard Marks Sarn Helen 25 munud 26 eiliadau, 2ail Mark Terry Trots 26munud 39eiliadau, 3ydd Gordon Orme Cardigan 27 munud 40 eiliadau. Sarn Helen ennillodd y tîm dynion, Carwyn Thomas, Andrew Abbott, a Glyn Price.

Yn adran y merched Carys Davies Sarn Helen ddaeth yn gyntaf mewn amser 27munud 47eiliadau, 2ail Claire Cleathero Trots 29munud 3ydd Catrin Lewis Carmarthen Harriers 30munud 33eiliadau. Merched 35 1af Shan Roberts Ingli Runners 26munud 30eiliadau, 2ail Lucy Garrod Abingdon Amblers AC 30munud 47eiliadau, 3ydd Sue Lloyd Pembrokeshire Harriers 33munud 29eiliadau. Merched 45 1af Oona Crawford Trots 34munud 42eiliadau, 2ail Pauline Thomas Trots 34munud.35eiliadau. 3ydd Pauline Charlett Pembrokeshire Harriers 37 munud 15eiliadau.

Ras plant ysgol gynradd 1af Jack Parkinson Pembrokeshire Harriers, 2ail Alan Davies Sarn Helen, 3ydd Osian Thomas Carmarthen Harriers. Merched 1af Alice Russell-Stretch Pembrokeshire Harriers, 2ail Lois Davies Blaengwynfi, 3ydd Lois Alwyn Llandysul. Bechyn dan 16, 1af Davy Lewis Carmarthen Harriers, 2ail Rhys Evans Sarn Helen, 3ydd Hefin Jones Sarn Helen. Merched 1af Kari O'Neill Carmarthen Harriers, 2ail Sian Davies Llangeitho, 3ydd Rhian Jones Sarn Helen.

Ennillwyr y ras o blith plant ysgol Cwrtnewydd oedd Arwel Jones, Rhodri Hatcher Rhys Davies, a Luned Medi Jones, Kelly Jones, Cerys Ann Lewis.

Cafodd Glyn Price ras dda yn Neyland gan orffen yn gyntaf yn ei oedran a Allen Watts yn y safle cyntaf i ddynion dros 70. Da iawn Allen. Hefyd daeth y bechgyn yn gyntaf yn y tîm. Glyn Price, Carwyn Thomas, Mark Dunscombe a Huw Price.

Mis prysur yw mis Mai i redwyr y clwb a daeth hi'n amser i Ras fawr 'Sarn Helen Hill Race'. Ras rhewl, caeau a'r mynydd am 16.5 o filltiroedd. 66 o redwyr yn cwblhau'r cwrs. Roedd y ras yn cael eu noddi gan Jones Bros Cigydd,Stryd y Coleg Llanbed a Dŵr Tŷ Nant.

Dynion Agored 1af Steve Rees o Port Talbot Harriers mewn amser da o 1awr 48 munud 56 eiliadau 2il Mike Evans Caerdydd 1 awr 51munud 18 eiliadau. Dynion 40 1af John Atyeo Witney Road Runners 1awr 52munud 51 eiliad, 2il Glyn Price Sarn Helen 1awr 54munud 33 eiliadau. Dynion 50 1af Richard Marks Sarn Helen 2 awr 13 munud 49 eiliadau 2il Goff Oldrid Aberystwyth AC 2 awr 24 munud 13 eiliadau.

Enillwyd y tîm gan Sarn Helen – Carwyn Thomas, Glyn Price, Michael Davies a Mark Dunscombe.

Shan Roberts o Ingli Runners oedd y cyntaf nôl o'r merched 35 mewn amser 2 awr 9 munud 50 eiliadau, 2il Caroline John Sarn Helen 2 awr 22 munud 45 eiliadau. Merched agored1af Lousie Barker Aberystwyth AC 2 awr 12 munud 14 eiliadau. 2il Phoebe Webster UWA Harriers 2 awr 16 munud 5 eiliad. Merched 45 1af Mandy Jones Islwyn 2 awr 26 munud 24 eiliadau. 2il Helen Williams Trots 2 awr 32 munud 13eiliadau.

Rhodd arbenig i redwr gorau y clwb yn mynd i Carwyn Thomas.

Adran y Plant ysgol gynradd 1af Alan Davies Sarn Helen 13munud 49 eiliadau, 2il Rhydian Evans Sarn Helen 15 munud 15 eiliadau,3ydd Finley Sharratt 18 munud 16 eiliadau. Merched 1af Caitlin Page Sarn Helen 14 munud 5 eiliad 2il Katja Birkett 17 munud 15 eiliadau 3ydd Lleucu Ifans 18 munud 26 eiliadau.

Bechgyn dan 15 1af Heulyn Evans Sarn Helen 15 munud15 eiliadau, 2il Maclain Sharratt 18 munud 1 eiliad, Merched 1af Natalie Jones Sarn Helen 17 munud 6 eiliad.

Bechgyn dan 18 1af Gethin Jones Sarn Helen 27 munud 11 eiliadau, 2il Jerome Evans Port Talbot Harriers 27 munud 32 eiliadau, 3ydd Kyle Fulcher 31 munud 23 eiliadau.

LLEOL I MI Canolbarth PAPURAU BRO

NEUADD GOFFA

Mae rhannau o'r rhifyn hwn o CLONC ar safwe Cymru'r Byd y BBC:
www.bbc.co.uk/cymru/canolbarth/papurau_bro/clonc

Cwmann

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Cerys Roberts, Caeronnen am gael ail yng nghystadleuaeth dylunio a thechnoleg oedran Blwyddyn 9 yn eisteddfod genedlaethol Urdd Gobaith Cymru yn Sir Conwy.

Graddio
Llongyfarchiadau calonnog i Geinor Medi, Bryndolau, Cwmann ar ennill Gradd Meistr mewn Iechyd Cyhoeddus (MPH) ym Mhrifysgol Caerdydd. Bu Geinor Medi yn astudio'n rhan amser. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Cor Meibion Cwmann a'r Cylch
Ar nos Sadwrn 3ydd o Fai cynhaliwyd y Cinio Blynyddol yng ngwesty'r Porth, Llandysul. Cafwyd croeso mawr a chinio bendigedig. Ar ôl y ginio cafwyd anerchiad byr gan lywydd y Côr sef Mr Alun Williams, Crown Stores. Diolchodd am yr anrhydedd a soniodd sut 'roedd yn gwerthfawrogi'r teithiau a oedd ef a'i briod wedi eu gwneud gyda'r Côr dros y blynyddoedd ac fel yr oedd yn gobeithio bod ar y daith i Neuadd Albert, Llundain Mis Mawrth 2009. Diolchodd y cadeirydd, Arthur Roderick, i'r gwesty am y cinio ac i Dannie Davies am wneud y trefniadau. Defnyddiodd yr achlysur i ddiolch i aelodau'r côr am eu teyrngarwch a'u ffyddlondeb ac i'r swyddogion i gyd am eu gwaith clodwiw ar hyd y blynyddoedd. Diolchodd yn arbennig i'r arweinydd, Mrs Elonwy Davies ac i'r cyfeilydd Miss Elonwy Pugh am eu gwaith mawr a chyson. Soniodd am edmygedd a gwerthfawrogiad yr aelodau o'u llafur caled.

Cyflwynodd roddion i'r ddwy fel arwydd o werthfawrogiad y côr o'u llafur diflino. Keri Davies oedd yng ngofal y raffl. O dan ofal yr is-gadeirydd Cyril Davies, cafwyd adloniant diddorol gan aelodau o'r côr. Fel arfer mae'r côr yn cael amser prysur gyda llu o alwadau am gyngherddau. Yn ystod y pedwar mis nesaf mae galw am ei gwasanaeth mewn cymanfaoedd canu a hefyd mewn priodasau. Mae rhif y côr yn dal yn uchel er ei fod wedi cael colledion trwm yn ystod y Gaeaf. Rydym wedi cael sut bleser a mwynhad dros y blynyddoedd yn teithio ar hyd y wlad ac yn wir ar hyd y byd fel ein bod yn teimlo bod yna gyfrifoldeb arnom i sicrhau parhad y côr er mwyn mwynhad cenedlaethau i ddod. Er mwyn gwireddu hyn gwahoddir yn gynnes iawn aelodau newydd i ymuno â ni a gellir sicrhau oriau o ddiwylliant, adloniant a mwynhad i bob un. Cofier, mae'r côr fel un teulu mawr estynedig sy'n ofalus am bob aelod, boed hen neu ifanc. Cysyllter â'r cadeirydd 422361 neu'r ysgrifennydd 422425

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad a Mrs Bessie Lloyd, 14 Heol Hathren ar farwolaeth ei brawd ym Mhenparcau, Aberystwyth.

Diolch
Dymuna Gwennie a Jeff Douch a'r teulu Glynderi ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad, galwadau ffôn, blodau a'r llu cardiau a dderbyniwyd ar farwolaeth brawd a chwaer sef Mrs Betty Evans a Mr Hughie Rees yn gymharol ddiweddar

Pen-blwydd arbennig 18
Llongyfarchiadau i Carwyn Lewis, 18 Heol Hathren, Ffion Evans, Esgair Eiddig, Tyrone Hargreaves, 17 Heol Hathren a Carl Randell, Maes yr Hendre. Pob lwc i'r dyfodol.

Diolch
Dymuna Mr Arthur Jenkins, 26 Heol Hathren ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 80 oed.

Cydymdeimlo
Trist oedd clywed am farwolaeth sydyn Mr Barry Watkins, 4 Heol Hathren. Estynnwn ein cydymdeimlad â Morina, Terence a'r teulu o golli priod, tad a thad-cu annwyl. Hefyd â Mrs Lena Williams a'r teulu, 39 Heol Hathren o golli ei brawd.

Diolch
Dymuna Endaf a Gwyneth, Lletyrdderwen ddiolch i bawb am y llu cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas Ruddem.

Diolch
Dymuna Mrs Ruthie Williams, Rhiwlas ddiolch i bawb a gofiodd am ei phen-blwydd arbennig yn 80 oed. Diolch am y llu cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniodd a'r ffrindiau a alwodd heibio ar y diwrnod. Mi gefais amser bendigedig yng nghwmni'r teulu. Diolch yn fawr.

Diolch
Dymuna Islwyn, Gwêl y Coed ddiolch i bawb am y galwadau ffôn i Seland Newydd ac ar ôl dod adref. Diolch am gefnogaeth teulu a ffrindiau, cardiau a'r anrhegion. Rwyf yn teimlo yn well ac yn edrych nôl ar yr amser da gefais i ac Anita yn crwydro Seland Newydd a gwylio Anwen yn ennill medalau arian ac efydd ar y Bowls. Diolch i bawb.

Diolch
Hoffai Carwyn Lewis, 18 Heol Hathren ddiolch yn fawr i bawb am y cardiau, arian a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ar Mai 8fed.

Llongyfarchiadau i Mared Wyn Owen (Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen) ar gyrraedd rownd derfynol Ras Blwyddyn 3 Urdd Genedlaethol Cymru a gynhaliwyd yn Aberystwyth ym mis Mai ac ar ennill y chweched safle o blith y 67 o redwyr o Gymru benbaladr a gymerodd ran.

Diolch
Dymuna Gareth Young, Pentwyn, Cwmann, ddiolch o galon am y llu o gardiau a rhoddion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ar 24ain Ebrill. Gwerthfawrogir eich caredigrwydd yn fawr iawn.

Clwb 170
Enillwyr Mai: 1. Mrs Audrey Bonner, Stryd y Bont, Llambed, 2. Miss Gwen Jones, Derry More, Cellan, 3. Mrs M. McMullen, 44 Heol Hathren, 4. Mr Irfon Williams, Bryneiddig, 5. Mr Julian Evans, Dan y Wenallt, Llambed, 6. Womens' Workshop, Neuadd yr Eglwys, Cwmann, 7. Mrs Nora Arrowsmith, Neuadd Fach, 8. Mrs Ceinwen Evans, Felinfach, Cwmann, 9. Mrs Marian Roberts, Cyswllt, 10. Mrs Kate Williams, Sarnhelen.

Pwyllgor Pentref Clwb 225
Enillwyr Mai: 1. Mr Aled Davies, Tremle, 2. Miss Einos Jones, Felindre Uchaf, 3. Mr Ronnie Roberts, Bryn View, Parc y Rhos, 4. Ian, Bryngolau, Cwmann, 5. Mr Iwan Griffiths, Pantfud, Esgairdawe, 6. Mrs Vera Edwards, Heol y Maes, Pencarreg, 7. Mr & Mrs Wynford Edwards, Doleunant, Parc y Rhos, 8. Mrs Sallie Jones, Hathren, Stryd y Bont, Llambed, 9. Mertyn James, St.Thomas Street, Llambed, 10. Roger Davies, Glenmor.

Ymddiheuriad
Ymddiheuriadau am beidio cynnwys llun Endaf Morgan yn y rhifyn diwethaf. Roedd yn cynrychioli Pwyllgor y Pentref yn y cyngerdd llwyddiannus a gynhaliwyd yn Neuadd Sant Iago.

Cwmsychpant

Priodas Arian
Llongyfarchiadau i Eifion ac Elenid Jones, Talar Wen ar ddathlu eu Priodas Arian yn ystod y mis.

Cymanfa Ganu
Yn wahanol i'r arfer nid unigolyn fu'n darllen emyn allan yn y Gymanfa ar ran Capel y Cwm ond eleni cafwyd Parti Ysgol Sul y Cwm yn canu'r gân 'Os wyt ti'n hapus.'

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Ffion Cilgwyn a Dai ar enedigaeth merch fach, wyres fach newydd i Keith a Julie, Cilgwyn.

Penblwydd Arbennig
Gobeithio fod Mrs Olive Davies, Arosfa wedi mwynhau ei diwrnod wrth iddi ddathlu ei phenblwydd yn 75 oed.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Hazel Davies, San Clêr, [un o blant y Cwm] a fu farw yn ystod y mis.

Swydd Newydd
Llongyfarchiadau i Einir Ryder, Tyngrug-ganol ar ei phenodi yn athrawes y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Gynradd Aberbanc. Pob dymuniad da i ti ym mis Medi.

Cellan

Penblwydd Hapus
Pen blwydd hapus hwyr i Anwen James, Brynhyfrd ar ei deunawfed fis diwethaf. Gobeithio i ti fwynhau'r dathlu.

Llangyfarchiadau
Llongyfarchiadau mawr i aelodau gweithgar Sefydliad y Merched Cellan ar eu llwyddiant yn Rali'r Sir yn ddiweddar. Dyma'r tro cyntaf iddynt gystadlu ers blynyddoedd-pob hwyl i chi y flwyddyn nesaf!

Priodas
Llongyfarchiadau gwresog i Martin a Chris Lambert a fu'n dathlu eu priodas arian yn ystod y mis.

Gweinidog Newydd
Cynhaliwyd Cwrdd sefydlu Gweinidog newydd Caeronnen ar ddydd Sul yr 11eg o Fai. Daeth tyrfa dda ynghyd i sefydlu Y Parchedig Cen Llwyd a chafwyd te arbennig o flasus yn Neuadd y Mileniwm.

Priodi
Pob hwyl i Avril Carter, Crud-y-Gwynt gynt sydd yn priodi ddiwedd Mehefin â Kieran Gartland. Pob bendith iddynt yn eu cartef yn Nhreherbert, Cwmann.

Cadwyn Cyfrinachau

Enw: **Helen Roberts**
Oed: 24 oed
Pentref: Llambed
Gwaith: NNEB yn Ysgol Ciliau Parc, Ciliau Aeron
Partner: Euros Davies
Teulu: Ronnie (Dad), Ann (mam), Aled (brawd) a Sian (chwaer)

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Mynd ar wyliau yn y garafán gyda fy nheulu i Ddinbych y Pysgod ac i Iwerddon.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Sabrina the Teenage Witch a Hapus Dyrfa!

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
Pan wnes i gerdded mewn i biler mawr ar y stryd yng nghanol Caerfyrddin (pan oeddwn i'n blentyn wrth gwrs!!)

Y peth pwysicaf a ddysgest pan oeddet yn blentyn.
I barchu a bod yn gwrtais bob amser.

Y CD cyntaf a brynest di erioed?
Mariah Carey o Stiwdio, Llambed.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Dynes trin gwallt a hefyd i fod yn enwog a lot o arian!!

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?
Pan ofynnodd Euros i mi ei briodi!!!!!

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Gyda fy nghariad Euros a gyda fy nheulu a'm ffrindiau.

Beth yw dy lysenw?
Hels.

Beth sy'n codi ofn arnat?
Corynnod a llygod.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Person dauwynebog.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Ar hyn o bryd, talu popeth i'r briodas!

Unrhyw ofergoelion?
Dim mynd o dan ysgol.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert?
Sain siŵr iawn. Ond dwi yn trial edrych ar ôl fy nghroen.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Aerobics, rhedeg a cherdded.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
Prynu tŷ.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Pan brynais dŷ gydag Euros a dechrau talu biliau.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Hapus, Cariadus, sensitif.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Peugeot 206

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Daniel Carter (Chwaraewr rygbi Seland Newydd) heb anghofio am Euros wrth gwrs!

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Chinese

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Cylchgronau Ok a Closer.

Beth yw dy hoff arogl?
Persawr.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Bath twym a gwrando ar gerddoriaeth.

Hoff wefan.
Facebook

Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?
'The Bank Robbery' ac yr oedd yn ffantastig.

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?
Hyder.

Beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Dim - jyst rhedeg digon pell. Ond os fydde Euros tu fewn - fe wrth gwrs.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Marchogaeth Ceffylau.

Beth sy'n rhoi egni i ti?
Bwyd.

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?
Gweld plant fy nheulu yn llwyddo mewn niferoedd o wahanol bethau.

Pa gerddoriaeth yr hoffet ti yn dy angladd?
'Hero' gan Mariah Carey.

Oes bywyd ar ôl marwolaeth?
Oes gobeithio!

Ar beth rwyt ti'n gorwario arno fwyaf?
Dillad.

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
DILLAD

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti?
Dad.

Y gwyliau gorau?
Pan es i gyda fy ffrindiau ar ôl gorffen TGAU i Magaluf.

Arferion gwael?
Cnoi ewinedd

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?
Glanhau croen fy wyneb.

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?
Dal yn Llambed siŵr o fod.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Kevin Thomas, Cwmann

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

		1		3				
2		7					3	9
5			8			4		
6			2	5	3			
	2			8			9	
			7	9	4			2
		6			2			3
3	7					2		8
				4		5		

Atebion Swdocw Mis Mai

7	1	6	3	5	2	8	4	9
8	9	3	7	6	4	2	1	5
5	2	4	1	8	9	7	3	6
9	3	5	8	4	6	1	7	2
1	4	7	5	2	3	9	6	8
2	6	8	9	1	7	4	5	3
6	7	9	2	3	1	5	8	4
3	5	1	4	9	8	6	2	7
4	8	2	6	7	5	3	9	1

Enillydd: **Megan Jones, Llwynbedw, Alltyblaca.** Diolch i bawb arall am gystadlu: **Hugh Evans**, Llanybydder, **Mary Jones**, Stryd y Bont, Llambed, **Glenys Thomas**, Llanybydder, **Kay Davies**, Heol-y-Gaer, Llanybydder, **Avril Williams**, Cwmann, **Iona Warmington**, Llandaf, Caerdydd, **Bethan Williams**, Heol-y-Gaer, Llanybydder, **Glenys Davies**, Rhydybont, Llanybydder, **Jean Griffiths**, Cwrtnewydd, **Dan Jones**, Llanwenog, **Sian Gaunt**, Peterwell Terrace, Llambed, **Dafydd Ifans**, Penrhyn-coch, Aberystwyth, **Marian Evans**, Cwmann, **Luned Jones**, Blaencwrt, Llanwnnen, **Lynda Jones**, Gorsgoch, **Euronwy Doughty**, Llanybydder, **Betty Prydderch**, Llanllwni ac **Eurwyn Davies**, Heol-y-Gaer, Llanybydder.

Taith Cyfnewid i Ogledd Iwerddon - Ebrill 2008

Ar ddechrau Ebrill eleni teithiodd dwy o ferched Sir Gâr sef Louise Jones o Glwb Cwmann a Rachel Hughes o Glwb Llangadog ac un o Geredigion sef Einir Ryder o Glwb Pontsian draw dros y don i'r Ynys Werdd. Pwrpas y daith oedd ymweld â Chlybiau Ffermwyr Ifanc Ulster ac i gynrychioli Cymru yng Nghyfarfod Cyffredinol Ulster. Bu Clonc yn ddigon lwcus i glywed yr hanes gan y ddwy o'r ardal hon sef Louise ac Einir.

C: Sut brofiad oedd clywed eich bod wedi cael eich dewis?

L: Roeddwn wedi cynhyrfu'n lan ond roeddwn hefyd yn nerfus iawn. Ond ar ôl cael yr alwad ffôn gan Andrew Garrett fy ngwesteiwr am y bythefnos, y noson cyn i mi fynd a darganfod fy mod i'n mynd i fod yn aros gydag Einir am y bythefnos, roeddwn yn teimlo llawer gwell gan fy mod yn adnabod Einir ers dyddiau ysgol.

C: Ble oeddech yn aros?

E: Roedd Lousie a minnau yn aros gyda'n gilydd ar fferm odro ym Millisle, a Rachel ar fferm ger Portrush. Roedd cartref ein gwestai ni, Andrew Garrett, yng nghalon Ballywalter, County Down ac yng nghwmni ffermwyr ifanc bywiog a byrlymus Ballywalter y buom am gyfnod o bythefnos. Cafwyd llawer o hwyl yng nghwmni'r aelodau hyn gan ddod i adnabod eu teuluoedd a llawer o gymeriadau difyr a diddorol ar draws Ulster gyfan. Roedd y bythefnos yn un prysur dros ben a chafwyd cyfle i ymweld â nifer o fannau diddorol a hanesyddol yn Ulster a dysgu llawer am yr ardal, ei thraddodiadau a'i diwylliant.

C: Oes unrhyw droeon trwstan yn aros yn y cof?

E: I ddechrau, yn ystod ein hail ddiwrnod ym Mallywalter, torrodd car Andrew i lawr pan oeddem ar ein ffordd i weld yr arfordir 'Ards Peninsula' a bu'n rhaid i ni wthio'r car am adref. Yna'r noson honno aethom i weld gêm rygbi rhwng Ulster a Connacht a hithau'n bwrw hen wragedd a ffyn - roedd hi'n union fel bod adref yn y tywydd gwael!

C: Sut le oedd Belfast?

E: Un diwrnod sydd yn aros yn y cof yn glir yw'r diwrnod pan aethom ar daith bws awyr agored o gwmpas Belfast gan ddysgu llawer am orffennol cythryblus y dref hanesyddol hon. Roedd gweld yr holl furluniau ar waliau'r dref yn olygfa brydferth oedd yn procio'r gydwybod, ond eto roedd y murluniau yn darlunio digwyddiadau gwaedlyd ac ysgytwol yr ardal pan oedd yr IRA yn ei anterth.

L: Roedd yn ddiddorol gweld y muriau lliwgar a oedd o amgylch y ddinas, er bod yna rai lluniau a oedd yn codi dychryn arnaf. Roedd yn rhyfedd gweld y tai a'r barics sydd wedi cael eu gadael yn wag ar ôl i'r milwyr Prydeinig fynd adref yn ôl y rhaglen heddwch. Roedd yn rhyfedd hefyd mynd trwy'r gwahanol strydoedd gyda'r ffensys a'r weiren bigog, a'r cyflwynydd yn adrodd ein bod nawr yn yr adran 100% Catholig yna yn y stryd nesaf ein bod yn yr adran 100% Protestanaidd.

C: Beth adawodd yr argraff fwyaf arnoch?

L: Un o'r diwrnodau mwyaf diddorol oedd pan gawsom fynd i ymweld â Stormont sef adeilad seneddol Gogledd Iwerddon. Cawsom daith o amgylch y lle cyn cael mynd i weld y senedd yn pasio deddf a chwrdd â Dr Ian Paisley a chael ein llun wedi ei dynnu gydag ef. Roedd yn ddiddorol hefyd oherwydd roedd Stormont ar y newyddion y noson honno oherwydd bod grŵp a oedd wedi bod yn Stormont ar yr un adeg â ni wedi ceisio dod â chyllyll pum modfedd i mewn i'r adeilad.

E: Uchafbwynt y pythefnos wrth reswm oedd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol pan fuom yn aros mewn gwesty chwe seren a chael croeso tywysogaidd gan weddill aelodau Ulster. Yn debyg iawn i Gyfarfod Cyffredinol Cymru roedd hi'n benwythnos hwylus gyda thema "Carry On" ar y noson gyntaf pan benderfynais i wisgo fel merch o'r jyngl. Yn ystod y swper y noson hon, bûm yn eistedd ger Gweinidog Iechyd Llywodraeth Iwerddon sef John McAlister, a fu yn dadlau â mi bod pob Cymro neu Gymraes yn dod o'r cymoedd! Fe ddysgodd lawer am Gymru a'i phobl erbyn i mi orffen siarad ag ef, credwch chi fi! Yna yn ystod y dydd Sadwrn roedd y cyfarfod ei hunan gyda swyddogion Ulster yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth "Strictly Come Dancing" yn Dawnsio Gwyddelig. Yna i ddilyn cafwyd cinio moethus a chrand yn ystod y nos. Roedd y penwythnos hwn yn un prysur a hwylus gyda phawb yn groesawgar a chyfeillgar dros ben.

C: Sut fyddech chi'n cymharu Cymru ac Iwerddon?

L: Ar ôl cyrraedd Gogledd Iwerddon dysgais yn gyflym fod y bobl yn llawer mwy ffwrdd â hi na ni yng Nghymru. Dysgais hefyd fy mod i'n aros ar y fferm a gafodd y robot godro gyntaf yng Ngogledd Iwerddon. Roedd gweld y robot yma'n ddiddorol iawn, yn enwedig o weld faint o waith yr oedd yn arbed i'r ffermwr a pha mor rhwydd oedd y system yn gweithio. Roedd gan y teulu tua 100 o dda, ac oherwydd bod ganddynt y robot roedd ganddynt lawer mwy o amser i wneud gwaith arall oedd ei angen ar y fferm. Oherwydd hyn roedd mab y fferm yn gallu mynd i weithio gyda ffermwr arall.

E: Roedd tywydd County Down yn debyg iawn i Gymru, ond nid y tywydd yn unig oedd yn debyg ond roedd enwau rhai trefi hefyd yn debyg. Ar nifer o achlysuron mi fuom am noson allan i fwynhau lemonêd neu ddau (wir yr!!) mewn tref o'r enw Bangor. Roedd hyn yn ein hatgoffa o Gymru yn gyson. Buom hefyd mewn amgueddfa werin a thrafnidiaeth yn ystod yr wythnos gyntaf - digon tebyg i'n San Ffagan ni - gan weld holl adeiladau'r cyfnod yn ogystal â channoedd o geir, bysiau a beiciau o fewn un adeilad.

C: Unrhyw beth arall?

L: Hoffwn ddiolch i bawb a wnaeth gefnogi a rhoi'r cyfle i ni gael y profiad gwerthfawr yma. Roedd yn brofiad hynod arbennig a byddwn yn annog pob aelod o'r Mudiad i fanteisio ar y teithiau tramor sydd yn cael eu cynnig yn flynyddol.

E: Profiad bythgofiadwy. Os gewch chi'r cyfle i fynd i'r ardal hon - ewch 'da chi!

Silian

Llwyddiant

Llongyfarchiadau calonnog i Elliw Mair, Gwarffynnon ar ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth llefaru 12 – 15 oed yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid yn ddiweddar. Llongyfarchiadau hefyd i Aron ei brawd am gipio'r drydedd wobr yn yr unawd 10 – 12 oed. Pob lwc i'r ddau i'r dyfodol.

HYSBYSEBU YN CLONC

"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro."

Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.

£10.00 am floc bach.
£25.00 am chwarter tudalen.
£50.00 am flwyddyn o flociau bach.

Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:
01570 480015
ysgrifennydd@clonc.co.uk

Bwletîn

Gêm banel hwyliog
Radio Cymru

Clwb Rygbi
Llanbedr Pont Steffan
Nos Iau Mehefin 12, 7.30yh

Gary Slaymaker yn cyflwyno
Kevin Davies, Dewi Pws,
Caryl Parry Jones
a Jâms Thomas
Am fwy o fanylion
ffoniwch 08703 500 600
Os oes gan unrhyw un
ofynion arbennig
ynglŷn â mynediad
cysylltwch efo ni.

CINIO ELUSEN

Green Acres, Llanllwni

Gyda Phill Doyle
a Deryc Rees

Mehefin 15fed 2:00y.p.

Bwyd ac Adloniant £25.00

Mynediad drwy docyn yn unig
Er budd LATCH – Elusen Cancr Plant Cymru ac Ambiwlans Awyr Cymru

Ffoniwch 01559 395235 am docyn

Cwrtnewydd

Penblwyddi Arbennig

Penblwydd hapus i Emlyn Davies, 4 Heol y Bryn a fydd yn dathlu ei benblwydd in 65oed ar ddechrau mis Mehefin. Hefyd, pob dymuniad da i chi ar eich ymddeoliad o Chwarel Alltgoch.

Hefyd, penblwydd hapus i Margaret Jones, Cae Glas a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 60 yn ystod y mis. Mwynhewch y parti!

Ysgol Cwrtnewydd

Daeth clwb ffermwyr ifanc Llanwenog ynghyd â rhieni a phlant yr ysgol i beintio ardal y plant bach. Mae tu blaen yr ysgol bellach yn lliwgar iawn a'r plant wrth eu bodd yn mwynhau yn yr heulwen. Diolch yn fawr i bawb a fu wrthi, a diolch yn fawr i Western Power am ariannu y gwaith.

Ar bob prynhawn Mawrth fe gynhelir clwb garddio yn yr ysgol. Rydym bellach wedi plannu yr holl blanhigion o amgylch yr ysgol ac yn edrych ymlaen iddynt flodeuo. Y cam nesaf fydd plannu y llysiau yn yr ardd, ein gobaith yw tyfu digon er mwyn coginio cawl yn yr hydref. Diolch i bawb am eu rhoddion hael i'r clwb.

Lansiwyd y cylch Ti a Fi, mae bellach yn mynd o nerth i nerth. Cofiwch mae croeso i bawb i'r cylch, sydd yn cwrdd pob prynhawn Mawrth (yn ystod y tymor) yn Neuadd yr ysgol rhwng 1.15 a 3.30. Derbyniwyd grant gan CAVO er mwyn sefydlu y cylch.

Fe fu plant blynyddoedd pump a chwech yn ymweld â'r ysgol Uwchradd. Blwyddyn pump yn cael diwrnod o fabolgampau a blwyddyn chwech yn cael eu cyflwyno i'r ysgol. Fe fu plant blwyddyn chwech yn cymryd rhan mewn gweithgareddau aml sgiliau chwaraeon yn ysgol Ffynnonbedr.

Bu dosbarth Miss Jones ar daith gyda phlant Capel Dewi i Gei Newydd yn ddiweddar. Er y glaw fe gafodd pawb amser da ar y traeth, ymweld â gorsaf y bad achub ac wrth gwrs bwyta hufen iâ. Ar yr un diwrnod fe fu dosbarth 3,4,5 a 6 ysgol Capel Dewi yn cymeryd rhan mewn nifer o weithgareddau gyda ni yma yn ysgol Cwrtnewydd.

Fe ddaeth y dydd unwaith eto eleni a gyda'r haul yn tywynnu ar ysgol Cwrtnewydd cafwyd diwrnod llwyddiannus a hwylus iawn. Daeth y gymuned gyfan a thu hwnt i gefnogi'r diwrnod, rhedodd mwy na 150 o bobl yn ystod y diwrnod a thorrwyd ambell i record. Cafwyd gwerthiant anhygoel yn y ffair, a phrofwyd hwyl a miri yr arwerthiant unwaith eto eleni. Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr i bawb am eu cyfraniad, yn enwedig CRhA yr ysgol a fu wrthi yn ddiwyd wrth baratoi a sicrhau rhediad hwylus y dydd. Llwyddwyd i godi dros £6000 o bunnoedd ar y diwrnod. Diolch yn fawr.

Fe noddwyd y raffl ar ddydd Calan Mai gan Fanc Barclays dan gynllun'Punt am bunt'. Dyma Lynda Jones, Barclays Llambed yn cyflwyno siec i aelodau'r Gymdeithas rieni ac athrawon.

Yn ystod bwrlwm Calan Mai cafwyd cyfle i dawelu a chofio am gyn bennaeth hoffus yr ysgol sef Mrs Sulwen Lloyd Thomas. Wedi'r newyddion trist am ei marwolaeth fe benderfynodd criw o gyn staff yr ysgol, a fu'n cwrdd yn aml i giniawa, mai braf buasai gosod cwpwrdd yn ysgol er cof amdani. Felly yn ystod Calan Mai fe ddadlennwyd y cwpwrdd sydd wedi ei osod yng nghyntedd yr ysgol. Diolch yn fawr i'r unarddeg am eu rhodd caredig, rydym yn ei werthfawrogi a'i barchu yn fawr.

Daeth holl ysgolion yr ardal i gymryd rhan yn gemau potes yr Urdd. Cafwyd diwrnod braf iawn gyda'r holl blant (mwy na 300 ohonynt) wedi mwynhau yn hwyl y diwrnod.

Llongyfarchiadau i Meinir, Luned , Alysha a Rhian, tîm cwis llyfrau yr ysgol, a ddaeth yn ail yng nghwis llyfrau Ceredigion ar gyfer 2008. Gwych!

Clwb Ffrindiau'r Ysgol: Mis Mai 2008 £10.00 – Eric Rees, Rhosdir, Bwlchyfadfa, £5.00 – Lloyd Thomas, Milford, Cwrtnewydd, £2.50 – Alan Jenkins, Tyllwyd, Llanbedr Pont Steffan, £2.50 – Dewi a Sian Jones, Blaenhirbant, Cwmsychbant.

Wedi cyfnod o unarddeg mlynedd yn gweithio yn yr ysgol mae Carol Rees, ein gofalwraig, yn gorffen gyda ni yma yn yr ysgol. Mae ein diolch yn fawr iawn iddi am ei holl waith diflino ac edrychwn ymlaen i gwrdd â'r babi cyn hir.

Yn ymuno â'r staff mae Mrs Elin Jones a fydd yn dysgu yn nosbarthiadau Mr Ward a Miss Jones, dymunwn pob hwyl iddi yn y swydd. Yn ehangu ei chyfrifoldebau yn yr ysgol fydd Mrs Eleri Jones a fydd yn cymryd y swydd o ofalu am yr ysgol.

O Gymru i'r America – Taith Peru 2008

Peru, un o wledydd anhygoel De America, sy'n gartref i un o olygfeydd harddaf y byd sef y Machu Picchu, ac fe fues yn ffodus iawn o gael ymweld â'r wlad ddiwedd mis Mawrth eleni.

Roedd yr holl beth yn her, hyd yn oed misoedd cyn mynd, oherwydd yr oeddwn yn casglu arian tuag at elusen 'Ymchwil Cancr Cymru' - her yn ei hunan i ddweud y gwir. Yr her arall oedd hyfforddi fy hunan ar gyfer y daith. Felly bob penwythnos byddem yn teithio i wahanol ardaloedd i gerdded.

Wel daeth yr amser i ffarwelio, a chychwyn ar fy ffordd i Heathrow yn Llundain i gwrdd â gweddill y grŵp. Nabod neb wrth gwrs ar y pryd, heblaw am un neu ddau nes i gwrdd mewn cyfarfod yn Llundain rhyw ddau fis yn gynt. Ond wrth edrych nôl nawr, beth oeddwn ddim wedi sylweddoli ar y pryd, oedd y byddai 22 o bobl dieithr yn dychwelyd yn 22 o ffrindiau wedi rhannu profiad anhygoel.

Cyrhaeddom ddinas Cuzco Peru bore Sul, 24 awr yn hwyr oherwydd trafferthion Terminal 5 yn Heathrow. Doedd dim amser i wastraffu,- roedd yn rhaid dod yn gyfarwydd â'r uchder oherwydd roeddem wedi glanio ar 11,152 o droedfeddi ac roedd mwy i ddod!

O'r cychwyn cyntaf yr oeddwn wedi rhyfeddu â'r wlad, ei harddwch a'i phobol, ac fe sylweddolais y byddai'r daith hon yn fythgofiadwy, ac ni ches fy siomi chwaith. Fe ddechreuodd y trec tua hanner awr o dref Calca, rhyw 11,800 troedfedd o uchder yn ardal gysegredig yr Incas a cherdded lan tuag at 12,400 troedfedd trwy geunant cul Totoro, gan orffen y diwrnod drwy wersylla yn Lares. Mae'n rhaid dweud does dim byd yn well ar ôl diwrnod o gerdded na chael ymlacio mewn 'hot springs'. Dechreuad addawol iawn! Cofiwch, doedd hi ddim yn fêl i gyd, oherwydd roedd yn rhaid codi am 4.45 bob bore er mwyn cychwyn yn gynnar i bawb cael amser i gyrraedd pen y daith, a chawsom y cyfle wrth gerdded i weld prydferthwch y wlad. Y Mynyddoedd glasier a'r anifeiliaid, megis moch, Lamas ac El Pacas; cael cwrdd â thrigolion tlawd y mynyddoedd yn cynnig gwerthu anrhegion a nwyddau wedi'u creu drwy grefft llaw. Fe gawsom y cyfle i gymysgu gyda'r bobl leol hefyd, oherwydd ar yr ail noson cawsom chwarae pêl-droed gyda thrigolion y pentref ar uchder o 12,800 troedfedd, rhywbeth doeddwn i ddim yn meddwl y byddwn i'n gallu ei wneud, yn enwedig ar ôl diwrnod cyfan o gerdded.

Credaf taw un o uchafbwyntiau'r daith oedd cyrraedd uchder o 14,500 o droedfeddi, sy'n ôl bob sôn yr un peth â phetaech yn dringo hanner ffordd i fyny mynydd Everest. Uchafbwynt arall oedd ymweld â'r Machu Picchu, un o brif safleoedd archaeolegol y byd. Roeddwn wedi clywed am, a gweld y lle ar y teledu nifer o weithiau, ond roedd yn brofiad anhygoel a thrawiadol o fod ar y safle ei hunan, yn sefyll 7,872 o droedfeddi uwchben tref Aguas Calientes.

Mi roedd y bobl yn Peru yn gyfeillgar a chroesawgar iawn, ac roedd y tîm o borthwyr oedd gyda ni ar y daith wedi edrych ar ein holau yn arbennig tu hwnt, a'r bwyd yn flasus dros ben. Taith fythgofiadwy i mi, ac y byddwn yn annog unrhyw un i wneud yr her hon; mi ddysgais lawer am y ffordd yr oeddent yn byw gan hefyd ddysgu ambell air o Sbaeneg.

Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i bawb a wnaeth fy noddi tuag at y daith yma. I'r busnesau lleol, staff Ysbyty Glangwili, Clwb Ffermwyr Ifanc, ffrindiau a theulu. Trwy eich caredigrwydd fe wnes godi dros £3,500 tuag at Ymchwil Cancr Cymru. Arian fydd yn cael ei ddefnyddio tuag at ymchwil a datblygiad yn y maes yma. Felly diolch unwaith yn rhagor ac fel byddent yn ei ddweud yn Ne America,

'Adios por ahora' (Hwyl am y tro)

Lyn Jenkins, Brynrhosyn, Llanybydder

(Erbyn y bydd hwn yn ymddangos yn'Clonc' bydd Lyn wedi teithio i Ganada am 3 mis yn cynrychioli C.Ff.I. Cymru a Lloegr).

Llanwnnen

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys ag Alice a Dilwyn Davies, Alwyn ar farwoaleth ei chwaer yng nghyfraith sef Wendy Jones, o Bontsian.

Croeso!

Llongyfarchiadau i Carolyn a Richard, Dôl Haf, ar enedigaeth eu mab Osian.

Pwyllgor Lles

Bydd trip y Pwyllgor Lles yn mynd i Fachynlleth, Drenewydd a dychwelyd i Aberystwyth ar ddydd Mercher, 18fed Mehefin. Bws yn gadael Llanwnnen am 9:15y.b. Enwau i Gomer Lewis 480252.

Ysgol Llanwnnen

Ar benwythnos cyntaf mis Mai daeth tyrfa ynghyd ben bore yn barod i ddal bws i fynd lan i Fanceinion – un arall o dripiau gyda Nia'n trefnu. Stopiwyd am baned o de yn y Trallwng yn ystod y bore. Yna awd ymlaen a chael cyfle i wneud ychydig o siopa mewn canolfan ar gyrion Manceinion. Nes ymlaen aethom yn ein blaenau a chyrraedd y gwesty moethus tu hwnt. Cafodd bawb gyfle i ymlacio a chael swper cyn ein bod yn mynd ar y bws unwaith eto a mynd i'r Theatr i weld y sioe gerdd 'Joseph and the Amazing Technicolour Dreamcoat' gan Andrew Lloyd Webber. Roedd y sioe yn werth ei gweld gyda sawl un o'r actorion wedi bod yn llwyddiannus ar y rhaglan deledu 'Any Dream Will Do'. Ar y dydd Sul bu sawl un yn ymlacio yn y pwll nofio cyn derbyn brecwast bendigedig! Cawsom rai oriau i grwydro o amgylch Caer, cyn troi tuag adre ddiwedd y prynhawn. Stopiwyd am bryd o fwyd blasus yn Llety Parc yn Aberystwyth cyn dychwelyd i Lanwnnen tua 8:30y.h. Cafwyd benwythnos i'w gofio unwaith eto a diolchwyd i Nia am drefnu gan Linda Davies. Mae Nia yn meddwl trefnu taith arall yn nes i ddiwedd y flwyddyn i wneud siopa 'dolig.

Yn ystod y mis bu cyffro mawr pan glywyd bod canlyniad y Cwis Llyfrau wedi dod i law. Braf yw nodi bod tim Emma Newton-Jones, Cerian Jenkins, Ffion Jenkins a Ryan Holmes wedi dod yn gydradd 3ydd gyda 192 allan o 200. Cafodd y pedwar ohonynt docyn llyfr gwerth £5 yr un. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau dîm arall a fu'n cystadlu hefyd.

Ar ddydd Iau, 8fed o Fai aeth Ffion Jenkins a Kate Jones lawr i Goleg Pibwrlwyd yng Nghaerfyrddin i gystadleuaeth CogUrdd Canolbarth Cymru. Y cogydd enwog Dudley oedd yn beirniadu. Ar ddiwedd y bore cyhoeddwyd mae Kate Jones oedd yn fuddugol a Ffion Jenkins yn drydydd. Bydd Kate nawr yn mynd i gystadlu ar faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghonwy ar fore dydd Mawrth. Pob lwc i ti bryd hynny Kate!!

Ar brynhawn crasboeth ar 12fed o Fai cynhaliwyd Chwaraeon Potes yr Urdd yn Ysgol Gynradd Cwrtnewydd. Bu holl ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan.

Yn ystod yr hanner tymor ac yn rhan o waith Addysg Grefyddol bu'r Parch Eileen Davies o Lanllwni gennym yn trafod eu gwaith fel Ficer. Cafodd y plant i gyd gyfle i ofyn cwestiwn iddi ac yn ystod ei hail ymweliad daeth â'i holl ddillad eglwys gyda hi ac fe gafodd y plant a'r staff gyfle i'w gwisgo!! Profiad reit wahanol!!

Pob lwc iddi pan mae'n dechrau ar ei gofalaeth newydd ar ddechrau mis Mehefin. Diolch yn fawr unwaith eto am eich parodrwydd i ddod mewn i Ysgol Llanwnnen.

Mae'r plant wrthi'n brysur nawr yn paratoi murlun allan o glai gogyfer â dathliadau'r Canmlwyddiant gyda Mr Robert Blayney o Bontsian.

Ar brynhawn braf ar ddydd Mercher, 21ain o Fai, cawsom ein Mabolgampau blynyddol. Gan bod hanner tymor prysur gennym ar ôl y gwyliau, rydym wedi ei gynnal yn gynnar eleni. Cawsom brynhawn bendigedig gyda phob disgybl yn cymryd rhan. Ar ddiwedd y prynhawn tŷ Grannell ddaeth i'r brig. Cyflwynodd Mr Evans y darian i'r plant ynghyd â medalau i'r plant hynny a ddaeth i'r brig: O dan 5 oed: Catrin Jones a Carwyn Rosser. Bl. 1 a 2: Catrin Rosser a Idris Lloyd. Bl. 3 a 4: Joshua Newton-Jones a Cerian Jenkins. Bl. 6 – Ffion Jones.

Ar ddau brynhawn ddydd Gwener yn ystod yr hanner tymor mae nifer o blant a rhieni wedi bod yn derbyn hyfforddiant Cymorth Cyntaf o dan gyfarwyddyd Heather Jenkins. Diolch yn fawr iddi hithau hefyd.

Ar brynhawn olaf cyn hanner tymor bu disgyblion yr adran Iau i gyd yn cymryd rhan yn Rygbi Tag ar gaeau Ysgol Llambed.

Rydym i gyd nawr yn barod i groesawu Mr Siôn Mason-Evans nôl i'r ysgol gobeithio ar ôl hanner tymor yn dilyn ei ddamwain yn ddiweddar. Hoffwn, hefyd ddiolch i Mr Dic Evans a fu yn cyflenwi gennym dros yr amser yma.

Cofiwch, os nad ydych wedi prynu tocyn ar gyfer Cyngerdd y Canmlwyddiant yn Theatr Felinfach ar nos Sadwrn, Gorffennaf 5ed – gwnewch hynny ar frys, gan mae ychydig iawn o docynnau sydd ar ôl!!

CANMLWYDDIANT YSGOL LLANWNNEN
1908-2008

Rhaglen y Dathlu

Nos Sadwrn 5ed Gorffennaf
Sioe y Dathlu yn Theatr Felin-fach.
Ffoniwch y theatr am docynnau.
01570 470 697.
Dydd Sadwrn 20fed Medi
Te, arddangosfa, dadorchuddio plac a lawnsio llyfr
Ysgol Llanwnnen, 2.00yp
Nos Sadwrn 20fed Medi
Cinio'r dathlu
yng Ngwesty'r Grannell.
£17.00 am docyn o'r ysgol
01570 480 203.
Dydd Sul 21ain Medi
Cymanfa Ganu, Capel y Groes.

Hefyd ar gael …
• Plât y dathlu - £12.50
• Mwg y dathlu - £7.50

Dewch i gefnogi canrif o addysg yn Llanwnnen

Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan
i'w chynnal ar – Gaeau Pontfaen
Dydd Gwener 8fed o Awst 2008
Llywydd – Mr Andrew Jones, Gwmgwyn, Pentrebach, Llambed

Oedolion £5-00 Plant dan 14, £1-00

Dosbarthiadau - Gwartheg, Defaid, Ceffylau, Geifr, Moch a Chŵn
Y babell – Cynnyrch Fferm, Cynnyrch Gardd, Blodau, Coginio, Gwinoedd, Cyffeithiau, Gwaith Llaw, Crefftau Gwlad, Ffotograffiaeth, Plant Ysgol a C.Ff.I.

Arddangosfa Hen Beiriannau Fferm
Arddangosfa Crefftau
Arddangosfa Coginio gan Alwen McConochi - Enillydd CASA Dudley
Rygbi 7 bob ochr ar ôl y sioe
Disgo yn yr hwyr

Manylion oddi wrth
Mrs Gwen Davies – Ffôn – 01570 481152
Mr Aeron Hughes – Ffôn – 01570 422654

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

Olmarch, Nant y Stalwyn, Dôl Ebolion

Enw diddorol ac enw gwerth treulio ychydig o amser yn ei drafod yn ardal Llambed yw Olmarch. Yr elfen gyntaf yn yr enw yw 'ôl' sef marc a adewir gan anifail neu ddyn. Datblygodd o ran ystyr i ddynodi llwybr neu ffordd a greir gan greadur ac mae llawer o'r enghreifftiau cynharaf ynghlwm wrth enwau anifeiliaid dof: ôl hwch, ôl gafr, ôl march. Olmarch yw'r cyfuniad a gynrychiolir yng Ngheredigion a'i ystyr yw 'llwybr march'. Ceir cofnod o'r enw yn 1613 a sonnir am Dir Olmarch yn 1651. Ceir, yn ogystal, Allt Olmarch. Rhwng Llambed a Thregaron mae ffermydd Olmarch Fawr, Olmarch Ganol, Olmarch Isaf ac Olmarch Cefn-y-coed.

Mae'r elfen 'march' yn digwydd yn gyffredin mewn enwau lleoedd yng Ngheredigion o gyfod cynnar: ceir Preseb y March yn Llangybi; Cnwc y March yn Llangeitho; Ysgubor Cwm March (1680) yng Nghilcennin ac yn Llanddewibrefi; Marchdy (1198) yn Ystrad Fflur; Rhyd y Meirch yn Llanddewibrefi. Ceir Nant Olmarch yn Llangoedmor ac Ôl Carn y March yn Llechryd. Mae Cae pwll march yn Llanwenog; Wern Meirch yn Aber-arth; Cwm March yn Llandysul; Llety'r March Melyn yn Llanfihangel Genau'r-glyn; Cae'r Meirch a Llethr Meirch yn Llanfihangel-y-Creuddyn; Nant y March yn Gartheli.

Yn Sir Gaerfyrddin ceir Carn y March (1605) a Blaen March yn Llangeler; Cil y March yn Llandyfaelog; Clun March a Rhyd y March yn Llansawel; Gwaun y March yn Llangathen; Gwern y March yn Sanclêr. Nant Meth y Meirch (1587) yng Nghaeo; Gwaun y Meirch yn Llangeler, yn Llangathen ac yng Nghaeo; Cwm y Meirch yn Myddfai; Clun Meirch yn Llanllawddog; Llwyn March yn Llandeilo; Llety March yn Llan-non (Sir Gâr); Parc y March yng Nghaerfyrddin; Rhyd y March yn Nhalyllychau.

Dyma rai enwau cyffelyb o Sir Benfro: Carreg y March yn Dinas; Ogo'r March yn Llanwnda; Tir y March Brethyn yn Nhyddewi; Pistyll y March yn Llandeilo.

Gair sy'n perthyn i dafodieithoedd de Cymru yw 'march'; yr enw cyfatebol ar draws gogledd Cymru yw 'stalwyn' a'r ffin rhwng y ddwy ffurf, yn fras, yw'r tir rhwng aber Afon Dyfi a tharddle Afon Rheidol. Ac at ei gilydd dyma diriogaeth 'stalwyn' fel elfen mewn enwau lleoedd yn ogystal. Ceir Cae Stalwyn yn Abergele, Llansannan a Llanystumdwy a Pharc y Stalwyn yn Llansilin. Yn Sir Ddinbych ceir Ceinmeirch; mae'r elfen gyntaf yn gyfystyr â 'chefn' neu 'trum' a'r ystyr yw 'Cefn y Meirch'. Mae'r enw wedi goroesi yn Llanrhaeadr–yng-Ngheinmeirch a aeth bellach yn Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch. Mae'r eglwys wedi'i chysegru i Dyfnog a chedwir ei enw yn ogystal yn Ffynnon Ddyfnog.

Mae Sir Forgannwg a Sir Frycheiniog yn ddiddorol yng nghyswllt yr hyn rydym newydd ei drafod oherwydd ceir 'march' yn bodoli ochr yn ochr â 'stalwyn' yn y tafodieithoedd ac mewn enwau lleoedd. Ceir Nant y Stalwyn ac Ynys March yng Nghwm Dulais, Castell-nedd; ceir Nant y Stalwyn yn Llanddewi Abergwesyn a Pwll y March yn Llanfihangel Abergwesyn.

Nid yw'r enw Olmarch yn gyfyngedig i Geredigion. Ceir cyfeiriad at le o'r enw Olmarch (1326) yn Llandeloy [Llan-lwy] yn Sir Benfro; digwydd y cyfeiriad hwnnw yn Llyfr Du Tyddewi, arolwg o diroedd yr esgob yn esgobaeth Tyddewi. Digwydd yr enw yn ogystal yn Llanblethian yn Sir Forgannwg ac yn Niserth, Sir Fflint. Ceir Cae Olmarch yn Ystradowen, eto yn Sir Forgannwg.

Mae amryw enwau lleol sy'n cynnwys cyfeiriadau at gesig, ebolion a cheffylau.

Ceir Bryn Casegfan yn Llanfair Clydogau; Bryn Cesig (1509) yn Nihewyd; Ffos y Cesig yn Aber-porth; Parc y Cesig yng Nghydweli. Mae Dôl Ebolion yn Llangeitho a Pant yr Ebolion yn Trefeurig, Parc yr Ebol yn Llannarth. Llwyn 'r ebol yn Llandysilio yw'r unig enghraifft o ebol yn elfen mewn enw lle y gwn i amdano yn Sir Gaerfyrddin.

Ceir Cae'r Ceffyl yng Nghil-y-Cwm; Cae'r Ceffylau yn Llansadwrn; Cwm y Ceffyl yn Llangyndeyrn; Ynys y Ceffyl yn Glanaman; Pwll Ceffylau (un o byllau Afon Teifi) yn Llanllwni; Cae ceffylau ar fferm Aberceiliog, Llanllwni; Cae ceffylau a Waun ceffylau yn Llanwenog; Aber Ceffyl yn Nhyddewi.

Yng ngyswllt trafodaeth y mis hwn ar feirch a stalwyni a chesig ac ebolion, fe awn ati i drafod dau enw lleol arall yn ymwneud â'r ceffyl y mis nesaf, sef Buarth-y-re yn Llanybydder a Rhyd-y-re yn Llandysul.

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC

Mae wastad yn bleser mynychu Sadwrn Barlys yn Aberteifi ac nid oedd eleni yn unrhyw wahanol. Daeth tyrfa dda i'r dref ar ddiwedd mis Ebrill i weld yr orymdaith ac fe gefais i'r fraint o gyflwyno tlysau i rai o'r enillwyr. Yn yr un modd, roedd yn braf gallu agor march-lwybr newydd yn swyddogol yn Long Wood, Betws Bledrws, yn ystod Gŵyl y Banc Calan Mai. Mae atyniadau o'r fath yn dod yn gynyddol bwysig er mwyn denu twristiaid i'r ardal yn ogystal ag er budd y trigolion lleol, ac rwy'n falch bod aelodau o'r gymuned leol wedi dod at ei gilydd i ddatblygu llwybr o'r fath.

Yn Llanddewi Brefi, fe ymunais â gorymdaith brotest o amgylch y pentref a oedd wedi ei threfnu er mwyn dangos y gwrthwynebiad sydd yn lleol tuag at gynllun y Post Brenhinol i gau'r Swyddfa Bost leol a chyflwyno gwasanaeth fan symudol yn ei lle. Erbyn hyn, mae'r cyfnod ymgynghori wedi dod i ben a bydd y Post Brenhinol yn ystyried yr holl ymatebion cyn datgan yn derfynol pa Swyddfeydd Post yng Ngheredigion fydd yn gorfod cau. Fe fydd colli'r Swyddfa Bost leol yn sicr yn ergyd i gymunedau gwledig ac fe all hyn effeithio ar hyfywdra ein pentrefi. Yn benodol, rwy'n pryderu'n fawr am ddyfodol unig siop y pentref yn nifer o'r pentrefi sy'n wynebu bygythiad pe byddai'r Swyddfa Bost yno yn cau. Er gwaethaf hyn, roedd yn dda gweld trigolion mewn cymunedau ar draws Ceredigion yn cydweithio i lunio'r achos dros gadw'r Swyddfa Bost leol ar agor.

Yn olaf, fe fynychais gyfarfod o Fforwm Ieuenctid Ceredigion yn Llanarth yn ddiweddar. Roedd yn galonogol iawn i glywed brwdfrydedd y bobl ifanc yng ngwleidyddiaeth leol a chenedlaethol ac rwy'n cefnogi eu safbwynt y dylid lleihau'r oedran pleidleisio. Fe dynnwyd fy sylw hefyd at y ffaith bod y bobl ifanc yn credu nad oes digon o wybodaeth ar wahanol systemau gwleidyddol Prydain ar gael yn ein hysgolion. Byddaf felly'n codi'r mater gyda Jane Hutt AC, y Gweinidog Addysg, gan fy mod yn awyddus iawn i sicrhau bod y genhedlaeth ifanc yn cael y cyfle mwyaf posibl i ymwneud â gwleidyddiaeth gan fod y penderfyniadau sy'n cael eu cymryd ym Mae Caerdydd a San Steffan yn effeithio arnynt hefyd.

GLYN PHILLIPS
Saer Coed ac Asiedydd

Ffôn: 01570 470176
Symudol: 07775 694243

D Aled Evans
Plymwr a Pheiriannydd Gwresogi

Gosodwr a Chynhaliwr
- Systemau gwresogi
- Baddonau a chawodydd
- Gwresogyddion mewn lloriau
- Gwasanaeth cynnal a gosod boileri a'u hatgyweirio

Ffôn/Ffacs 01267 253230 neu 07966 592 183

T. Emyr Jones
Adeiladwr

Araul, Cwmann
01570 423921
07867 945174

CANOLFAN ADDURNO
AA
A
Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.
Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.
Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd
NEHAR
newydd agor yn Llambed

Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.
15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.
Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.
10 Stryd y Bont, Llambed
01570 422893 / 422175

Creative Cove

40A Y Stryd Fawr, Llambed, ☎ 421985

Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:
- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfrlliw.

Ruth Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr

19 Stryd y Coleg, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

W.D. Lewis a'i Fab

Masnachwyr Amaethyddol
☎ 01570 422540
Melin Mark Lane, Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan

Am holl fwydydd a nwyddau amaethyddol, cysylltwch â ni.

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR. COMISIYNWYR LLW ON

Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford, Llambed
☎ 01570 422206 🖷 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

CEGIN GWENOG CATERING
Y gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer bob achlysur:
Priodas; Penblwydd; Bedydd; Angladd; Cinio Busnes; Digwyddiadau Maes,
Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach
Cyswllt: Mrs Mair Hatcher
Abernant, Llanwenog, Llanybydder, SA40 8UR
☎01570 481230 📱 07967 559683

2008

Blwyddyn Darllen

GENEDLAETHOL

Wythnos Llyfr yn Anrheg – 7 i 12 Gorffennaf 2008

Fel un o brif ymgyrchoedd y Flwyddyn Darllen yng Nghymru, bydd yr ymgyrch hon yn canolbwyntio ar annog pobl o bob oed i roi llyfrau yn anrhegion i ffrindiau a theulu. Dyma ymgyrch y gall pawb drwy Gymru ymuno â hi, gan roi sylw gwych i lyfrau ac i ddarllen!

Gyda chefnogaeth papurau bro Cymru, mae'r gwaith o hyrwyddo Wythnos Llyfr yn Anrheg eisoes ar y gweill a bydd yn parhau hyd at yr wythnos ei hun. Mae posteri a nodau llyfr lliwgar wedi eu cynhyrchu, a bydd y rhain yn cael eu dosbarthu'n eang i lyfrgelloedd a siopau. Gwneir ymdrech arbennig i sicrhau sylw yn y wasg a'r cyfryngau, gan ofyn i wahanol bersonoliaethau gyflwyno llyfrau i gyfeillion, a bydd hysbyseb radio arbennig yn cael ei chynhyrchu a'i darlledu'n eang er mwyn cyrraedd cynulleidfa mor fawr â phosibl.

Bydd adran arbennig ar gyfer Wythnos Llyfr yn Anrheg ar wefan y Flwyddyn Darllen (www.blwyddyndarllengenedlaethol.org.uk) a bydd cyfle yno i aelodau'r cyhoedd nodi pa lyfrau y byddan nhw'n eu rhoi'n anrhegion yn ystod yr wythnos.

Mae darllen yn sgìl hanfodol ar gyfer pob agwedd ar fywyd ac mae'r Flwyddyn Darllen yn gyfle gwych i dynnu sylw at bwysigrwydd darllen ac i ddathlu pleser a mwynhad y gair ysgrifenedig. Gall ddarllen agor drysau i fydoedd newydd!

Cydlynir y Flwyddyn Darllen yng Nghymru gan Gyngor Llyfrau Cymru, gyda nawdd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

'Y Pleser o ddarllen' gan Luned Mair, Alltyblaca

'Dacw Jac y Jwc yn rowlio lawr y rhiw', neu rywbeth tebyg. Ond nid y dyfyniad cywir sy'n bwysig, ond y ffaith mai dyna'r frawddeg gynta' 'dwi'n cofio ei darllen, ac mi aeth dad yn ecseited bost gan taw wrth ddarllen y frawddeg yna o un o lyfrau Sali Mali y llwyddais i ddweud 'r' yn iawn am y tro cynta'! A'r peth nesa' dwi'n ei gofio yw dwlu ar lyfrau Jacqueline Wilson a T. Llew Jones a cheisio darllen un o'u llyfrau bob penwythnos! Ie, efallai allech chi ddweud fod darllen yn weddol bwysig i fi.

Pam? Wel, wrth ddarllen 'dwi wedi llefen, chwerthin, cael cymaint o ofn nes 'mod i'n methu mynd i gysgu a theithio i bedwar ban byd - a'r cwbwl weithiau mewn un llyfr! Do, chwerthin nes 'mod i'n methu anadlu wrth ddarllen rhyw lyfr 'Hotel Eddie' o'dd yn ddifrifol o ddoniol pan ro'n i'n saith oed! A diolch i hunangofiant Peter Kay, mi fues i'n chwerthin yn uchel i fi fy hun ar y trên i Lundain haf llynedd. Ma'n rhaid bod y teithwyr eraill yn meddwl 'mod i'n hollol boncyrs! Ac ma' unrhyw lyfr lle mae rhywun yn marw yn gwneud i mi lefen - odw, 'dwi'n eitha' sopi fel'na!

Mae'n siŵr mai'r llyfr 'dw i wedi ei ddarllen dro ar ôl tro…ar ôl tro yw 'Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr' gan Alun Jones, a hynny ar gyfer fy arholiadau TGAU, ond mi wnes i ei fwynhau bob tro, ac mi 'ro'n i'n dal i chwerthin ar antics Gladys Drofa Ganol hyd yn oed wrth i mi ei ddarllen am y canfed tro…wel, ddim cweit falle! 'Ma' darllen yn rhywbeth pwysig, yn ddihangfa ac yn deffro'r dychymyg. A'r peth diwetha' i fi ddarllen, 'Nada' can Carmen Laforet…neu gylchgrawn 'Ok!', wel ma'n rhaid ca'l bach o ysgafnder weithie'n 'dos e!

CEFNOGWCH **WYTHNOS LLYFR YN ANRHEG**
7-12 GORFFENNAF 2008

Cystadleuaeth:

Cyfle i ennill un o'r llyfrau isod:
Pac o Straeon Rygbi 2 gan Alun Wyn Bevan, **Y Gwledydd Bychain** gan Bethan Gwanas, **Jackie Jones** gan Caryl Lewis, **Dyn y Syrcas** gan Derfel Williams, **Y Gongol Felys** gan Meinir Pierce Jones, **Ar Lwyfan Cymru** ac **Ar Lwyfan y Byd** gan Alun Guy.

Enwch ddau lyfr a gyhoeddir eleni ag apêl leol iddynt, a danfonwch y ffurflen isod i: Cystadleuaeth Clonc, Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET gyda'ch dewis o wobr erbyn **20 Mehefin 2008**.

Enw:_____

Cyfeiriad:_____

_____

_____

Dau Lyfr ag apêl leol:

Ateb 1:_____

Ateb 2:_____

Eich dewis o lyfrau fel gwobr:

1af:_____

2il:_____

3ydd:_____

Llyfrau lleol

Ar Ddydd Sul 6ed Gorffennaf, lansir llyfr newydd **Brondeifi Hanes yr Achos** gan y Parch Goronwy Evans. Diweddariad ydyw o lyfr a gyhoeddwyd yn 1974 a hanes holl ddigwyddiadau'r capel hyd at y bedydd diwethaf a gynhaliwyd ar 18 Mai 2008. Bydd yn llawn lluniau hefyd a gyhoeddir yn broffesiynol gan Wasg Gomer. Bydd y llyfr ar werth am £9.95 os nad ydych wedi tanysgrifio o flaen llawn am £8. Cynhelir y lansiad yng Nghapel Brondeifi gyda the i ddilyn. Darllen difyr mae'n siwr i bawb â chysylltiad â'r achos, neu â diddordeb yn hanes yr ardal.



Ar Ddydd Sadwrn 20fed Medi, lansir llyfr newydd **Hanes Ysgol a Phlwyf Llanwnnen**, fel rhan o ddathliadau pen-blwydd yr ysgol.

Dau gyn bennaeth yr ysgol Alice Davies a John Williams sy'n gyfrifol am grynhoi hanes yr ysgol a Dylan Iorwerth sy'n ysgrifennu hanes y plwyf. Llyfr arall at ddant darllenwyr Clonc.

Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan

Mewn seremoni wobrwyo fawreddog yn y Celtic Manor yng Nghasnewydd, enwebwyd pum disgybl o'r Adran Dechnoleg, ynghyd â'r cwmni Dragon Machinery o New Inn, ar gyfer pedair allan o'r deuddeg prif wobr. Enillodd y tîm 'Wobr Sefydliad Peiranwyr De Cymru' am y 'prototeip gorau'. Cyflwynir siec o £500 i'r ysgol ac fe fydd aelodau'r tîm yn derbyn £50 yr un. Aelodau'r tîm buddugol oedd Shawn Brown, Tony Chen, Gethin Jenkins, Edmund Merrow-Smith a Adam Templeman. Roedd y bechgyn yn cystadlu yn erbyn 73 ysgol, gyda rhai ysgolion yn gweithio ar y cyd gyda chwmniau peirianneg mwyaf Cymru, fel Airbus UK, Corus a BAE Systems. Trefnwyd y digwyddiad gan EESW, a'r seremoni wobrwyo oedd yr uchafbwynt i'r bechgyn ar ôl chwe mis o waith caled. Diolch i bawb o EESW a fu ynghlwm â'r prosiect, ac yn arbennig i Mr Bob Elward am ein cyflwyno i'r digwyddiad, i Mr David Wyatt o Dragon Machinery am roi cyfle i'r ysgol, ac wrth gwrs diolchwn i Mr Griffiths a Mr Hesketh am eu cefnogaeth a'u harweiniad.

Ar Fai'r 8fed, cynhaliwyd cystadleuaeth coginio'r Urdd, sef 'Cogurdd' yng Ngholeg Pibwrlwyd yng Nghaerfyrddin. Bu Aron Dafydd a Dewi Uridge o flwyddyn 7 a Lowri Pugh-Davies ac Elliw Mair o flwyddyn 10 yn cystadlu, a'r cogydd enwog Dudley Newbury oedd yn beirniadu. Gweithiodd y bechgyn gyda'i gilydd i baratoi ac i goginio 'byrgyrs blasus' a 'salad salsa sbeislyd' o dan y thema 'prydau cyflym'. Er na enillodd y ddau, roeddent yn agos iawn i'r brig.

Bu'r merched yn paratoi ac yn coginio 'cawl pys mintys, cacennau sawrus Cymreig a phryd tro-ffrio tsili gyda chig oen Cymreig' o dan y thema 'prydau tymhorol Cymreig'. Roedd y merched yn fuddugol ac maent yn mynd ymlaen i'r rownd derfynol fydd yn cael ei chynnal ar faes Eisteddfod Sir Conwy. Llongyfarchiadau i'r pedwar ohonynt a phob lwc i Elliw a Lowri.

Cynhaliwyd bore coffi yn neuadd yr ysgol yn ddiweddar i godi arian at Apêl Cystic Fibrosis. Trefnwyd y digwyddiad gan Lewis a Ryan Watkins ac aelodau 10D ac 8D. Bu'r bechgyn yn brysur yn gweini'r staff ac fe fu'r merched yn paratoi cebabau ffrwythau blasus iawn a ffownten siocled. Roedd Lewis a Ryan yn awyddus i drefnu'r bore coffi er mwyn codi arian er cof am eu cyfnither, Siân Watkins a phob clod iddynt am eu hymdrechion. Codwyd £490 o bunnoedd a diolch i bawb a gyfrannodd mor hael at yr achos.

Mae'r clwb Seryddiaeth wedi cael blwyddyn lwyddiannus iawn eleni. Cafodd ein disgyblion y cyfle i reoli telesgopau mawr yn Hawai ac Awstralia, drwy'r wê. Mae rhai wedi llwyddo i adeiladu modelau gweithredol o sêr dwbl ac mae eraill wedi cynllunio ac adeiladu deialau haul. Fe fydd Josh Harrison-Little, Onder Cakirer, Beca Morris, Annabelle Hollingsworth, Richard Bracey, Daniel Hurton, Darren Tierney a Jasmine Kime o flwyddyn 10 a Rowan Evans o flwyddyn 9 yn sefyll eu haroliadau Seryddiaeth TGAU yn fuan, ar ôl blwyddyn yn unig o astudio'r pwnc. Maent wedi bod yn gweithio'n annibynnol i gwblhau'r gwaith a dymunwn bob llwyddiant iddynt.

Bu Megan Williams, Cara Jones, Caitlin Theodorou, Michaela Chandler, Toni Harding a Rowan Thomas o 8G yn helpu i ddewis enillydd 'Gwobr Ieuenctid y Gymdeithas Frenhinol ar gyfer llyfrau Gwyddoniaeth'.

Bu'r merched wrthi yn darllen, yn adolygu ac yn gwneud sylwadau gwerthfawr ar y chwech llyfr ar y rhestr fer. Cynhaliwyd cyfarfod i gyfri'r pleidleisiau a dyfarnwyd 'Big Book of Science Things to Make and Do' yn fuddugol.

Danfonwyd eu pleidleisiau at y Gymdeithas Frenhinol yn Llundain ynghyd â'r pleidleisiau o'r ysgolion eraill. Fe fydd yr enillydd terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin.

Mae'r merched hefyd wedi dewis dau lyfr ardderchog fydd yn cael eu prynu ar gyfer y llyfrgell ac ar gyfer y blychau darllen yn y dosbarth.

Chwaraewyd gêmau hoci yn erbyn Aberaeron yn ddiweddar. Enillodd tîm Bl 8, 2-0, ond colli oedd hanes tîm Bl 10, 1-0.

Arwel Jones o'r frigid dan yn cyflwyno tystysgrifau i ddeg o ddisgyblion Ysgol Gyfun Llambed yng Ngorsaf Dân Llambed ar ddiwedd eu cwrs am ddiogelwch ar y ffordd a diogelwch tân. Yn y llun hefyd mae Lester James Kenny McDonald.

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.

Carpedi
Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Gwesty'r Grannell
Llanwnnen
Bwyd cartref ardderchog,
Ystafell wydr newydd,
Yn arlwyo ar gyfer pob achlysur,
Ystafelloedd en-suite,
Trwydded ar gyfer priodas.
Cysylltwch â Susan neu Siriol
☎ 01570 480476

REFLEXOLOGY
Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:
* Blinder / diffyg egni
* Meigryn
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstural problems
* a mwy
Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones
Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-
1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.
Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.
Arnold Davies
Vincent Evans
33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 🖷 01570 423244

Llangybi a Betws



Cyng Odwyn Davies, Llangybi yw cadeirydd newydd Cyngor Sir Ceredigion am y flwyddyn 2008/09.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau gwresog i Lowri Pugh Davies ar ennill cystadleuaeth coginio yng nghystadleuaeth sirol yr Urdd. Da iawn ti Lowri.

Ysgol Y Dderi

Cafwyd noson fendigedig wrth i blant yr adran iau, athrawon, rhieni a ffrindiau feicio o Langybi i Dregaron. Trefnwyd y noson ar gyfer codi arian i daith gyfnewid blwyddyn 6 i Ddenmarc. Diolch o galon i bawb a fu'n gweithio'n galed i wneud y noson yn un llwyddiannus. Diolch hefyd i Sian a phawb yn y Talbot am ein croesawu yn y modd arferol – byrgyrs a chips!

Treuliodd nifer o ddisgyblion o Ecole Piere et Marie Curie ddiwrnodau difyr yn ein cwmni tra'n ymweld â Llanbed. Diolch i rieni a ffrindiau'r ysgol fu'n rhoi llety iddynt ac yn eu difyru.

Bu blwyddyn 4, 5 a 6 yn cystadlu yng nghystadleuaeth chwaraeon potes yr Urdd a'r gaeau Blaendolau. Cafwyd brynhawn bendigedig a lot o hwyl a sbri.

Llongyfarchiadau i Sally Rees, disgybl blwyddyn 3 ar gael bod y plentyn cyntaf i eistedd yng nghadair clodfori'r ysgol. Cynlluniwyd y gadair fel rhan o waith dylunio a thechnoleg yr adran iau. Mae'r anrhydedd o gael eistedd ynddi yn mynd i blentyn sydd wedi dangos caredigrwydd tu hwnt i'r cyffredin neu sydd wedi llwyddo mewn maes arbennig. Da iawn ti Sally.

Mae blwyddyn 5 a 6 yn cymryd rhan mewn gweithdai cerddorol gyda'r cyfansoddwr enwog John Metcalf. Maent yn astudio'r opera "Chair in love". Mae'r plant yn mwynhau'r profiad newydd yma.

Cafwyd gwasanaeth trist iawn ar ddiwedd yr hanner tymor yma, wrth i ni ffarwelio gyda thair ffrind arbennig iawn. Mae Romina a Jessica o Batagonia ac maent wedi treulio'r hanner tymor yma gyda ni yn helpu mewn dosbarthiadau ac yn gwella eu sgiliau Cymraeg. Braf oedd cael cwmni dwy mor hawddgar yn ein ysgol. Pob dymuniad da i'r ddwy wrthynt deithio ymhellach. Hefyd, dyma oedd y tro olaf i Ficer Eileen i ymweld â ni mewn gwasanaeth . Dymunwn yn dda iddi wrth iddi gymryd gofal o eglwysi Dyffryn Aeron. Mi fyddwn yn gweld ei heisiau yn fawr.

urdd.org

Apêl Llambed a'r Fro
Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010

Cynhelir Cymanfa Ganu yn Eglwys Shiloh Llambed

ar y nos Sul Gorffennaf 6 am 7 o'r gloch.

urdd.org

Arweinydd a threfnydd y noson yw Twynog Davies gydag Eirwen Davies wrth yr organ.
Yr artistiaid fydd Côr Merched Côrisma, Côr Meibion Cwmann a'r Cylch a Merched Malog.



Mae'r rhaglenni ar werth gan aelodau Eglwys Shiloh neu yn Siop Caxton, pris: £4.

Rhyw 300 o raglenni fydd ar gael, felly gwnewch yn siŵr o'ch rhaglen mor fuan â phosib. Recordir y Gymanfa gan gwmni Andante ar gyfer rhaglen Caniadaeth y Cysegr Radio Cymru.
Dyma gyfle unigryw i gefnogi a hybu gwaith ieuenctid Cymru yn eu Prifwyl yng Ngheredigion yn 2010. Edrychwn ymlaen at eich cwmni a'ch cefnogaeth.

Gohebiaeth Clonc

Annwyl Olygydd

Ysgrifennaf ar ran **Pwyllgor Ysgol Trevelin**. Yr ydym, fel ysgol sydd yn arbenigo mewn dysgu Cymraeg fel ail iaith.

Ar hyd y blynyddoedd yr ydym wedi gweld pa mor werthfawr yw danfon ein dysgwyr ni i Gymru, oddi wrth ddylanwad y Sbaeneg a'r demtasiwn i'w siarad trwy'r amser tu fas i'r gwersi ffurfiol. Gwerthfawrogwn hefyd y problemau tebyg gyda dylanwad y Saesneg yng Nghymru. Teimlwn felly bod gyda ni adnodd gwerthfawr yma yn y Wladfa. Oherwydd yn y Wladfa mae gyda ni sefyllfa unigryw iawn ble mae'r Gymraeg yn iaith fyw ond cyfleon i siarad Saesneg yn brin iawn, iawn.

Yr ydym yn cynnig darpariaeth ar bob lefel ac mae modd i ni gynnig gwersi grŵp ar wahân i grwpiau o faint digonol neu integreiddio dysgwyr i'n darpariaeth ni. Fe all yr ail opsiwn fod yn dda ar gyfer grwpiau bach o ddysgwyr o Gymru. Mae hefyd yn ein galluogi i dderbyn grwpiau o 2 berson yn unig hyd at 14.

Mae pob pecyn yn gallu cynnwys llety lleol (gyda siaradwyr Cymraeg), cymdeithasu â'r gymuned Gymraeg leol a gwersi Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Trevelin. Yr ydym hefyd yn gallu cynnig pecyn sydd yn cynnwys tipyn o wyliau yn Buenos Aires ar y ffordd yma ac ar y ffordd yn ôl hefyd.

Os hoffech fwy o wybodaeth cysylltwch â fi trwy e-bost, sef ysgolgymraegtrevelin@gmail.com

Gill Stephen Tiwtor / Profesora
Ysgol Gymraeg yr Andes /
Centros Galeses de la Cordillera
Rivadavia 1065, Esquel 9200
Chubut, Patagonia, Argentina
Ffôn: +54 2945 450 235

Gwastraffu Meddiginiaeth

Roedd archwiliadau diweddar o'r meddyginiaethau a ddychwelwyd gan gleifion i fferyllwyr cymunedol ar draws Ceredigion wedi dangos bod gwerth oddeutu £718,882 o feddyginiaeth yn mynd yn ofer bob blwyddyn am nad yw'n cael ei defnyddio. Gallai hynny olygu oddeutu £1,970 o feddyginiaeth bob dydd!

Mae'r Adran Iechyd yn amcangyfrif bod cymaint â 10% o'r holl gyffuriau a gaiff eu rhoi ar bresgripsiwn yn cael eu gwastraffu! Byddai hyn yn golygu bod gwerth hyd at £800 miliwn o gyffuriau'n cael eu gwastraffu bob blwyddyn o fewn y sector Gofal Cynradd!

Faint o lawdriniaethau ar y glun, llawdriniaethau ar y galon a llawdriniaethau cataract y byddai modd eu cynnal gan ddefnyddio'r arian hwn?

Mae pryderon ynghylch diogelwch cleifion yn codi os yw meddyginiaethau'n cael eu cronni mewn un man neu'u cadw yn y cartref. A ydynt wedi mynd yn rhy hen? A oes perygl y bydd plant yn cymryd y meddyginiaethau hyn trwy gamgymeriad?

Mae'n amlwg bod gan bawb rôl i'w chwarae i helpu i leihau'r feddyginiaeth a gaiff ei gwastraffu! Y Meddyg Teulu, y fferyllwyr, y gweithwyr proffesiynol gofal iechyd ac yn bwysicaf oll Y CLAF!

Cydnabyddir cefnogaeth
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Gweithwyr Fferm y Flwyddyn

Mae NFU Cymru wedi lansio 'Gwobr Gweithwyr Fferm y flwyddyn' 2008, sy'n cydnabod y rôl hanfodol chwaraewyd gan weithwyr yn y diwydiant ffermio. Gwahoddir ceisiadau ar draws Cymru gan, neu ar ran, gweithwyr rhan neu llawn amser, sydd wedi bod mewn cyflogaeth ers o leiaf bum mlynedd.

Mae'r wobr, nawr yn ei phedwaredd blynedd, wedi ei noddi gan fanc Nat West. Bydd yr enillydd yn derbyn gwobr o £500 a thlws Cymdeithas Frenhinol Cymru; gyda'r ddau ail orau'n derbyn £100 yr un.

Dyddiad cau yw Mehefin 12fed. Ysgrifennwch at 'Wobr Gweithwyr Fferm y flwyddyn, Tŷ Amaeth, Maes y Sioe Frenhinol, Llanelwedd, Powys, LD2 3TU neu E-bost sarahjones@nfu.org.uk

Ffôn 01982 554 200.

Cerddorfa'r Opera yn dod i'r Bont

Bydd Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru yn ymweld â Phafiliwn Bont, Pontrhydfendigiaid ar ddydd Mercher y 25ain o Fehefin.

Bydd y cyngerdd yn cynnwys cerddoriaeth o operâu ac operatâu gan gyfansoddwyr megis Verdi, Rossini, Puccini, Strauss, Lehar a Dvorak. Arweinydd y gerddorfa fydd Gareth Jones ac mae'n fraint cael presenoldeb dau o unawdwyr o safon ryngwladol i ymuno â hwy.

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 01974 831635 neu www.

Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

Rhifyn mis Gorffennaf
Yn y Siopau
Gorffennaf 3ydd
Erthyglau i law erbyn
Mehefin 20fed
Newyddion i law erbyn
Mehefin 23ain

Llanllwni

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Elin Jones, Tŷ Newydd, Maesycrugiau ar ennill cystadleuaeth Aelod Iau C.Ff.I. Cymru.

Gwellhad Buan

Dymuniadau gorau i Hywel Davies, Bryndulais sydd yn cael triniaeth yn Ysbyty Treforys ar ôl llosgiadau difrifol ar ôl damwain yn ei gartref.

Hefyd i Keith Evans, Brynceirch ar ôl triniaeth i'w law yn ysbty Glangwili.

Diolch

Hoffai'r plwyf ddatgan ein diolchgarwch i Lorraine Edwards am eu gwasanaeth yn y Siop a'r Swyddfa Bost. Ar ôl marwolaeth ei phriod ychydig yn ôl penderfynodd werthu'r siop a symud i Gastell Newydd Emlyn. Pob hapusrwydd iddi a phob dymuniad da hefyd i'r perchnogion newydd sef Dave, Tracy ac Amber Emery. Diolch Lorraine am gyfraniad o £10 tuag at Clonc.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Linda Evans, Ceunant ar ennill sedd ar Gyngor Sir Caerfyrddin yn yr etholiad ar Fai 1af. Bydd yn cynrychioli Llanllwni, Llanfihangel a Pencader – felly pob dymuniad da iddi.

Penblwyddi Arbennig

Llongyfarchiadau i David Evans, Murmur y coed ar gyrraedd 90 oed ar y 18fed o Fai. Hir oes a phob dedwyddwch i'r dyfodol.

Hefyd, i Aled Jones, Tŷ Newydd ar gyrraedd ei benblwydd yn 18oed yn ystod y mis.

Cymorth Cristnogol

Diolch i bawb a fu yn casglu dros Cymorth Cristnogol – ar ôl y cyfri yn Festri Capel Nonni gwelwyd fod dros £1300 wedi ei gasglu gan adran Llanybydder / Llanllwni. Os oes rhywun arall yn dymuno cyfrannu bydd banc Barclays yn Llambed yn barod i'w dderbyn.

Cyngor Bro

Cyfarfod nos Fawrth, Mai 20fed yn Festri Capel Nonni.

Yr oedd wyth aelod yn bresennol o dan gadeiryddiaeth Tommy Davies. Llongyfarchwyd y clerc Linda Evans ar ei llwyddiant ysgubol yn yr etholiad ar Fai 1af ar ennill sedd ar Gyngor Sir Gaerfyrddin. Yn anffodus bydd rhaid hysbysebu am Glerc newydd. Diolchwyd hefyd i Fioled Jones am flynyddoedd o wasanaeth diflino dros yr ardal.

Dewiswyd swyddogion am 2008-09: Cadeirydd – Eirug Thomas, Is-Gadeirydd – Tom J. Jones.

Cafwyd gwybodaeth fod cais am godi tŷ gerllaw i Greenfield Terrace wedi ei wrthod.

Penderfynwyd gadael y golau ymlaen drwy'r nos ond ail drafod ymhen blwyddyn.

Y mae angen peintio y tu allan Tŷ Hêrs ac fe wneir ymholiadau beth yw'r anghenion.

Gan fod angen cadwraeth ar frys yn Ysgol Llanllwni, penderfynwyd rhoi cyfraniad sylweddol tuag at y gwaith.

Hysbysebu am glerc newydd – rhaid gwneud cais drwy lythyr i'r Cadeirydd Eirug Thomas, Ffynnon Newydd, Llanllwni cyn y 15fed o Fehefin.

Diolch

Dymuna Davy, Murmur y Coed ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau, rhoddion ariannol ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn 90 oed.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Danielle Jones, Wig-y-Wern, ar gipio yn ddiweddar y fedal efydd am saethu â phistol ym Mhencampwriaeth Agored yr Alban a'r fedal aur yn yr gamp ym Mhencampwriaeth Agored Lloegr ar safon merched ac ieuenctid. Dymunwn yn dda iddi mewn cystadlaeuaeth ar gyfer detholion yn y Weriniaeth Siec ym mis Mehefin ac ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad yn yr Almaen.

Mae Danielle sy'n gyn-ddisgybl yn Ysgol Gynradd y pentref, wedi cyrraedd y safon disgwyledig er mwyn cystadlu yn Chwaraeon Ieuenctid y Gymanwlad yn Pune, yn India ym mis Hydref yng nghystadlaeuaeth y pistol awyr 10m. Mae ar bigau'r drain ar hyn o bryd yn gobeithio y caiff y cyfle i gynrhychioli Cymru unwaith eto. Pob hwyl iddi yn y dyfodol.

Ysgol Llanllwni

Bu 8 o blant o'r Adran Iau am benwythnos yng ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Cafwyd amser da yn gwneud gwahanol weithgareddau a chwrdd â ffrindiau newydd.

Aeth Trip yr Urdd i'r ganolfan treftadaeth yn Llangrannog. Clywsom stori Branwen cyn cael cyfle i wneud amrywiaeth o weithgareddau. Roedd yn rhaid stopio yn Mhencader ar y ffordd adre i gael swper. Mwynheuodd pawb mas draw.

Cafodd plant yr ysgol wahoddiad i fynd i Ysgol Carreg Hirfaen i fod yn rhan o 'Colourscape', sef gweithgareddau yn ymwneud â lliwiau. Cawsom weld fel mae lliwiau yn effeithio arnom.

Bu tîm o'r Adran Iau yn cystadlu yng ngemau potes yr Urdd, Cylch Llambed, yn Ysgol Cwrtnewydd, brynhawn Llun Mai 12fed. Bu'n brynhawn hwylus iawn gyda nifer fawr o dimoedd yn cymeryd rhan.

Croeso i Miss Heulwen Williams atom. Mae Miss Williams yn fyfyrwraig yng ngholeg y Drindod, Caerfyrddin ac yn gwneud chwe wythnos o ymarfer dysgu yn nosbarth y Babanod. Gobeithio byddi yn mwynhau'r profiad.

Bu Lowri Rees o Ysgol Pantycelyn, Llanymddyfri yn yr ysgol yn gwneud wythnos o brofiad gwaith yn y caban. Gobeithio dy fod wedi elwa o'r profiad.

Bu'r Adran Iau i Aberaeron am ddiwrnod yn gwneud gwaith daearyddiaeth ar gymharu ardaloedd.

Mae Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r ysgol a'r Ysgol Feithrin wrthi yn trefnu'r Diwrnod Hwyl a fydd yn cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn, Mehefin 28ain. Fe fydd yna weithgareddau a stondinau i ddiddori'r oedolion a phlant. Croeso cynnes i bawb ymuno yn yr hwyl.

Rhestr o hen dractorau o flaen y Bell Vue, Llanllwni ar ôl taith noddedig tuag at Ambiwlans Awyr Cymru.

Llanfair

Diolch

Hoffai Jonathon Evans, Llanfair Fawr, ddiolch o galon am yr holl ddymuniadau da mae wedi dderbyn oddi wrth ei deulu a'u ffrindiau y misoedd diwethaf, ar ôl ei ddamwain ar y cae rygbi. Mae'r goes yn gwella yn ara bach diolch i'r nyrsus a thriniaeth ffysio mae wedi dderbyn yn meddygfa Llanbed.

Gwellhad

Da yw clywed fod Billy Evans, Noyadd, wedi gwella ar ôl ei salwch.

Llongyfarchiadau

Hoffai bobol Llanfair longyfarch y Cynghorwr Odwyn Davies ar gael ei wneud yn gadeirydd pwyllgor Sir Ceredigion.

Helfa Drysor

Cynhaliwyd Helfa Drysor ar Nos Wener, 16eg Mai, wedi ei threfnu gan Alex a Lyn, Awelon. Cymerwyd rhan gan saith car a chafwyd noswaith hwylus iawn gyda theulu'r Quans yn ennill. Gorffennwyd y noson yn y Fishers Arms gyda swper da.

Sefydliad y Merched

Roedd Sefydliad y Merched, Llanfair, yn falch iawn o gael cadw y Cwpan Cynnyrch yn y rali a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 15fed o Fai. Dyma y ennillwyr: PIZZA: 3ydd Elaine Coombes, Penlanmedd. WYAU 'SCOTCH' 2il Elaine Coombes, PYBYR WEDI STWFFIO: 1af Liz Mercer, Gelli ac yn 2il, Paulaa Barker, Tŷ Coch, LLYSIAU a CNAU RHOST: 2il Paula Barker, Tŷ Coch. CASYN I FFON SYMUDOL: 2il Iris Quan, Blaencwm, RHAFF CLOCH: 1af Iris Quan, Blaencwm. LLUN DONIOL GYDA TEITL: 1af Katy James, Pandy. POSTER I ARDDANGOS GELF: 2il Elaine Coombes ac yn 3ydd Liz Mercer. FAS O FLODAU HEULWEN: 1af Eleanor Evans, Nantymedd. Llongyfarchiadau cynnes iddynt i gyd.

Mae Sefydliad y Merched ar hyn o bryd yn rhedeg cwrs yn y neuadd ar blethu bredau a taseli.

Bydd Sefydliad y Merched Mis Mai yn cwrdd yn stiwdio crochendy Dodie a Jamie, Nantyfelin.

Bydd y Picnic Blynyddol yn cael ei gynnal ar ddydd Iau, Mehefin 26ain ym Mlas Gorwydd. Diolch i Julia a David Schoon.

Cydymdeimlad

Hoffem estyn ein cydymdeimlad i Yolantha, Panteg ar golli ei mam, Mrs Leila Kazimiera Kaazmierezak yn 82 oed. Roedd ei mam yn dod o wlad Pwyl ac wedi gwasanaethu yn y gwrthsafiad Pwylaidd yn ystod yr ail ryfel byd, pam oedd yn ferch ifanc. Roedd wedi bod yn byw yng Nghymru gyda Yola ers rhai blynyddoedd bellach.

Yn y Cegin gyda Gareth

Cegin llawn sglein – 'Siocled'.

Pwy sydd ddim yn hoffi siocled? Darnau swmpus o faryn mawr, neu siocled unigol o focs hyfryd ar ddiwrnod arbennig. Ond am wledd,ewch â'ch siocled i'r gegin, toddwch e, coginiwch ag e, cymysgwch e neu gratiwch e. Dyma i chi rai o'm hoff rysetiau sy'n defnyddio siocled, - y dasg anodda i chi fydd penderfynu pa un gaiff eu coginio gyntaf.

Mwynhewch, ***Gareth.***

Siocled 'Browni'

Cynhwysion.

150gm 5owns o siocled
110gm 4owns o fenyn
225gm 8owns o siwgwr mân
½ llond llwy de o fanila
3 ŵy
75gm 3owns o flawd plaen
1 llond llwy de o bowdwr codi
100 gm 3½ owns o gnau pecan neu gnau ffrengig (walnuts)
1 pecyn o ddarnau siocled (Chocolate chips).

Dull

1. Trowch y ffwrn i 170°C 325°F Nwy 3
2. Toddwch y siocled a'r menyn mewn basn dros ddŵr berw. Tynnwch o'r gwres a chymysgwch y cyfan nes yn llyfn. Gadewch i oeri.
3. Yn ysgafn curwch y siwgwr, fanila a'r wyau; ychwanegwch y siocled gan dal i gymysgu nes bod y cyfan yn llyfn.
4. Gwasgrwch y blawd a'r powdwr codi dros y cyfan; cymysgwch, ac ychwanegwch y cnau.
5. Arllwyswch i dun, a gwasgarwch y darnau siocled dros y cyfan.
6. Coginiwch am 40 munud a thorrwch yn ddeuddeg darn.

Gall neb wrthod y bisgedi ffres yma!

Bisgedi darnau siocled.

Cynhwysion.

100gm o gnau cyll glân(Skinned hazlenuts)
175gm 6 owns menyn
175gm 6 owns siwgwr mân
2 ŵy
100gm 3½owns siocled plaen
175 gm 6 owns fflwr plaen

Dull

1. Torrwch y menyn yn ddarnau a'u rhoi gyda'r siwgwr yn y prosesydd bwyd. Hufenwch yn ysgafn. Ychwanegwch yr wyau.
2. Torrwch y cnau yn fân, a'r siocled yn giwbiau, ac ychwanegwch yn araf wrth i'r prosesydd redeg ar gyflymder araf.
3. Ychwanegwch y fflwr a'i gymysgu'n ysgafn.
4. Defnyddiwch llwy fwrdd i roi'r gymysgedd ar dun pobi; gwasgwch y toes ychydig. Pobwch am 12 i 15 munud ar wres 200°C 400°F Nwy 5. Gadewch i oeri.

Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Gwefannau Cymunedol Lleol:

Capel Bethel Parcyrhos: www.bethel.btik.com
Clwb Rygbi Llambed: www.clwbrygbillambed.org
Côr Cardi-Gân: www.corcardi-gan.com
Côr Merched Côrisma: www.corisma.btik.com
Llanllwni: www.llanllwni.co.uk
Llanybydder: www.llanybydder.org.uk
Menter Llambed: www.lampeter.org
Papur Bro Clonc: www.clonc.co.uk
Plwyf Llanwenog: www.plwyfllanwenog.com
Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan: www.llambed.ac.uk
Y Ford Gron Llambed: www.lampeterroundtable.org.uk
Ysgol Carreg Hirfaen: www.ysgolccc.org.uk/hirfaen
Ysgol Ffynnonbedr: www.ffynnonbedr.ceredigion.sch.uk
Ysgol y Dderi: www.ydderi.ceredigion.sch.uk

Os am ychwanegu at y rhestr, anfonwch ddolen at cadeirydd@clonc.co.uk

MIS Y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Gorfod talu am ffordd o fyw

Roedd yna jôc fach slawer dydd am y cerbyd modur sy'n cael ei enwi yn y Beibl – yn y fan yr aeth yr Iesu.

Heddiw, yn bendant iawn, ar yr ebol asyn y byddai o a phawb arall yn mynd. Yn enwedig pe bai'n byw yng nghefn gwlad Cymru.

Ychydig flynyddoedd yn ôl, roedd yna brotestio mawr pan gododd pris petrol tros tuag 80 ceiniog y litr. Bellach, mae bron 50 ceiniog arall yn ddrutach a, than orymdaith lorïau diwedd Mai, doedd fawr neb wedi cynyrfu'r dyfroedd. Nid dyna'r unig beth anodd ei ddeall. Mae'r rheswm tros y cynnydd yn y pris yn ddirgelwch hefyd heb na phrinder mawr na mwy o ryfel nag arfer i achosi'r broblem.

Er bod rhai'n sôn am y cynnydd mewn galw am olew yn China ac India, dydi hynny ddim yn ddigon i egluro'r prisiau dychrynllyd. Yr esboniad arall posib ydi un o felltition mawr y byd modern – gamblwyr y marchnadoedd arian.

Dyma'r bobol sy'n ennill *bonuses* anferth am chwarae gyda siariau a morgeisi a gwerth arian. Bellach, am fod y pethau hynny mor ansicr, mae'n ymddangos eu bod yn gamblo ar olew.

Wrth iddyn nhw brynu'r casgenni er mwyn gwneud elw, mae'r pris yn codi trwy'r amser, a ni sy'n gorfod talu. Un o'r ychydig rai eraill sy'n gwenu, wrth gasglu'r dreth betrol a'r dreth ar werth, ydi ein Canghellor hoff, Mr Darling.

Efallai fod ambell ymgyrchydd 'gwyrdd' hefyd yn hapus, gan feddwl y bydd y pris yn ein gorfodi i ddefnyddio llai ar ein ceir. Ond mae'n anodd yng nghefn gwlad.

Mae ein bywydau ni i gyd bron wedi eu trefnu o amgylch y car. Diolch i'r cynllunwyr a natur busnes y dyddiau yma, mae angen car i wneud popeth bron - hyd yn oed i fynd i'r llythyrdy yn Llanbed. Dydi'r We ddim yn ateb chwaith – mi allwch archebu'n electronig, ond rhaid delifro trwy'r post neu mewn fan fach wen.

Gyda gwaith a'r prif wasanaethau bellach wedi eu canoli'n benna' ar drefi mwy fel Caerfyrddin ac Aberystwyth, mae'n rhaid teithio o hyd ac o hyd, heb ddim trafnidiaeth gyhoeddus o werth.

Tra bod ceir ar yr hewl, dydi beic chwaith ddim yn ateb diogel ac mae angen nerfau cryf i gerdded hyd rai o'r priffyrdd, lle mae troadau neu rannau cul. Mae ffyrdd a cherbydau modur yn rhyddhau a chaethiwo'r un pryd.

Hyd yn hyn, felly, ryden ni'n dal i yrru cymaint ag erioed. Ond a ddaw newid mawr? A fydd rhaid i ni yn y diwedd newid ein patrymau byw? A fyddwn ni'n fodlon gwneud hynny?

Yr hen batrwm a ddaeth â channoedd i Gapel y Groes ar benwythnos cynta' mis Mai – hanner y tu mewn a'r hanner arall ohonon ni yn rhesi duon ar fin y ffordd y tu allan.

Er ein bod yno i ddathlu'r cof am fywyd Wendy Wyn, doedd dim cuddio'r tristwch dwfn chwaith. Yn gymysg â hwnnw, roedd parch a rhyfeddod at y ffordd yr oedd hi wedi ymladd ei hafiechyd heb adael i'r frwydr ei llethu.

Ymhlith y gynulleidfa, roedd aelodau Merched y Wawr Llanybydder y buodd hi yn eu cwmni ac yn dal i'w hysbrydoli hyd at y dyddiau ola'. Canu dan deimlad yr oedd côr Lleisiau'r Werin hefyd ac un o'r lleisiau ar goll.

Ar adegau fel hyn, mae angladd yn fwy na thalu'r gymwynas ola'. Mi fydd cymdeithas yn dod at ei gilydd, fel petai pawb yn gwybod na fedrwn ni fforddio colli rhai fel Wendy, heddiw yn fwy nag erioed.

A ninnau'n sefyll ar ymyl yr hewl yno, yn clustfeinio ar y gwasanaeth ac yn ysgafn-ganu'r emynau, fe ddaeth car heibio a phlentyn bach tua'r pedair oed yn y sedd gefn.

Wrth weld rhes o bobol, heb ddeall yr arwyddocâd, fe wnaeth y peth greddfol, naturiol a chodi ei llaw a gwenu. Wrth gofio athrawes a mam, rhywsut, roedd yn gweddu'n berffaith.

Cornel y Plant

I blant dan 8 oed

Dol-Mebyd
Pencarreg
Llanybydder

Annwyl blant,

Sut ydych chi? Gobeithio eich bod chi i gyd yn go lew. Mae'r hen Lincyn Loncyn bach newydd ddod nol o Eisteddfod yr Urdd. Dim cystadlu eleni – ges gam yn yr Eisteddfod Sir.

Braf gweld bod sawl un ohonoch wedi mentro rhoi bach o baent ar bapur y mis hwn eto. Mae clod fel arfer yn mynd i Sioned Fflur o Lanybydder a Miriam Butcher o Gaerdydd, ond yn dod i'r brig y mis hwn mae Lleucu Berwyn o Hafod, Ponthirwaun, Aberteifi.

Da iawn a llongyfarchiadau mawr i chi gyd.

Cofiwch roi cynnig ar liwio llun y mis hwn.

Hwyl





Enw:

Cyfeiriad:

Enillydd y mis!

Lleucu Berwyn

Toriad Taclus

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

COMPASS
OFFICE SUPPLIES

Am eich holl ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol Llambed, Heol Tregaron, Llambed.

☎ 01570 422955
🖷 01570 422232

Mwnci ffwnci

Brodweithio a Phrintio Dillad.
Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.

Sioned Green a Mared Jones
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambed
☎ **01570 423135**
07811917799 / 07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

Ymgynghorwyr Yswiriant
Eryl Jones
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur
Yswiriant tŷ/ cynnwys
Teithio
Fferm a busnes
Cyfrifoldeb
Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: **01570 422401**
Ffacs: **01570 422562**
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

Cymanfaoedd...

Y plant a fu'n cymryd rhan yng Nghymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambed ym Methel Cwm Pedol gyda'r arweinydd Carys Lewis a Janet Evans a fu'n hyfforddi'r plant.

Plant Ysgol Sul Bethel Parcyrhos a Thyngwndwn Felinfach a fu'n cymryd rhan yng Nghymanfa Ganu Annibynwyr Llambed a'r cylch yng Nghapel Soar Llambed gyda'r arweinydd Carys Lewis a'r Llywydd Dr Rheinallt Davies.

Carnifal Cwmann yn 50 oed

David Morgan yn coron'r frenhines ac Eric Williams yn coroni brenhines y rhosyn.

Llywelyn James, Shona Farnall, Natalie Jones, Mari Lewis, Kiri Douglas a Daniel Jones

Y Fflot orau - 'Pic a Mics' yn dathlu 15 mlynedd Euro Disney.

Cymeriad gorau dan 16 - Mali Jones

Cyntaf dan 12 - Morgan Lewis.

6-8 oed - 1 Becci Harrison; 2 Llion Herbert, cydradd 3 Rebecca Heath a Cari Jones.

LAS
Recycling Ltd
Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol
neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni
ar 01570 421421
Ffordd Tregaron, Llambed, Ceredigion, SA48 8LT

Tîm pêl-droed Teifi Girls yn ennill yr ail wobr mewn twrnament yng Nghilgeti gyda'r hyfforddwyr Kelvin James a Colin Thomas.

Profiadau newydd...

Colourscape ar ymweliad ag Ysgol Carreghirfaen, Cwmann.

Gêm bêl-droed ieuenctid Llambed yn erbyn St Germain sur Moine fel rhan o benwythnos yr efeillio.

Disgyblion ac athrawon Ysgol Ecole Pierre a Marie Curie o St Germain sur Moine, Ffrainc ar ymweliad a disgyblion Ysgol y Dderi.